ISSN 2053-5171
Rhifyn 20
2023

# Herio Materion Crefyddol

**Geoff Moore**
ar Moeseg Rhinwedd mewn Sefydliadau Busnes

**Mathew Guest**
ar Gwneud Synnwyr o Anghrefydd: Ailedrych ar Seciwlariaeth o'r Ochr Arall…

**Stephen Jacobs**
ar Ai Rhywbeth a Ddyfeisiwyd yw Hindŵaeth?

**Phra Nicholas Thanissaro**
ar A ddylai Bwdhyddion gefnu ar ddefodau a seremonïau?

**Opinderjit Kaur Takhar**
ar Dirnadaeth Sikhaidd o'r Dwyfol

Cefnogi Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch. Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn

# Herio Materion Crefyddol

## Cefnog Astudiaethau Crefyddol Safon Uwcha thu hwnt

## Rhifyn 20 2023

## Cynnwys


Moeseg Rhinwedd mewn Sefydliadau Busnes 2
Geoff Moore

Gwneud Synnwyr o Anghrefydd: Ailedrych ar Seciwlariaeth o'r Ochr Arall… 11
Mathew Guest

Ai Rhywbeth a Ddyfeisiwyd yw Hindŵaeth? 18
Stephen Jacobs

A ddylai Bwdhyddion gefnu ar ddefodau a seremonïau? 26
Phra Nicholas Thanissaro

Dirnadaeth Sikhaidd o'r Dwyfol 33
Opinderjit Kaur Takhar



**Golygydd**
Yr Athro Jeff Astley (Prifysgol yr Esgob Grosseteste, Prifysgol Durham)

**Golygydd Cysylltiol**
Phra Dr Nicholas Thanissaro (Ysgol Diwinyddiaeth Claremont, California, Prifysgol yr Esgob Grosseteste)

**Golygydd Cymraeg a Golygydd Rheolaethol**
Dr Tania ap Siôn (Prifysgol yr Esgob Grosseteste, Canolfan y Santes Fair, Canolfan San Silyn)

**Ymgynhorwyr Golygyddol**
Yr Athro Leslie J. Francis (Prifysgol yr Esgob Grosseteste)
Dr Ian Jones (St Peter's Saltley Trust)
Libby Jones (Canolfan San Silyn)
Yr Athro William K. Kay (Prifysgol Caer)
Yr Athro David Lankshear (Prifysgol yr Esgob Grosseteste)
Phil Lord (GwE)
Yr Athro Peter Neil (Prifysgol yr Esgob Grosseteste)
Yr Athro Stephen Parker (Prifysgol Worcester)
Y Gwir Barchedig Ddr David Walker (Prifysgol yr Esgob Grosseteste)



Dyluniwyd gan Phillip Vernon
Cyfieithiad gan Sioned Jones



**Herio Materion Crefyddol Religious Issues**

Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn
Llys Onnen
Abergwyngregyn
Gwynedd
LL33 0LD

E-bost: smc.taniaapsion@gmail.com

http://www.st-marys-centre.org.uk/

St Peter's Saltley Trust
Grays Court
3 Nursery Road
Edgbaston
Birmingham B15 3JX
Telephone 0121 427 6800
E-mail: director@saltleytrust.org.uk

https://www.saltleytrust.org.uk/

Canolfan San Silyn
Tŷ'r Coleg
Rhes y Deml
Cymru,
Wales
LL13 8LY
E-bost: tania.apsion@bishopg.ac.uk

https://stgilescentre.org/cy/



Caiff fersiwn Gymraeg *Herio Materion Crefyddol* ei noddi a'i reoli gan Ganolfan San Silyn Wrecsam – https://stgilescentre.org/cy/


Mae *Herio Materion Crefyddol* yn gyfnodolyn ar-lein, mynediad agored am ddim a luniwyd i gefnogi athrawon a myfyrwyr sy'n dilyn Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch, gan ddod ac ysgolheictod ac ymchwil diweddar a pherthnasol o'r Brifysgol i'r ystafell ddosbarth lefel A. Os oes unrhyw bynciau yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys yn y cyfnodolyn, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Herio Materion Crefyddol
Rhifyn 20 2023
© Geoff Moore

Canolfan y Santes Fair
a Sant Silyn
ISSN 2053-5171

# Moeseg Rhinwedd mewn Sefydliadau Busnes

Geoff Moore

*Yn rhan gyntaf yr erthygl ddwy ran hon darperir crynodeb byr o foeseg rhinwedd cyn troi i lunio fframwaith o arferion, sefydliadau, nwyddau a rhinweddau y mae Alasdair MacIntyre yn eu cynnig yn ei lyfr* After Virtue*. Yn yr ail ran, archwilir goblygiadau'r fframwaith hwn i sefydliadau busnes.*

*Cysylltiadau â'r fanyleb:*
*AQA Adran B: Moeseg a chrefydd: Damcaniaethau moesegol normadol; Cristnogaeth*
*EDEXCEL Papur 2: Crefydd a Moeseg: 5. Deontoleg, Moeseg Rhinwedd a Gwaith ysgolheigion*
*Uned 1 UG CBAC, Opsiwn A: Cristnogaeth. UG Uned 2, Adran A, B. Damcaniaeth Rhinwedd*
*OCR Crefydd a moeseg: Moeseg Busnes*

**Crynodeb byr o foeseg rhinwedd**

Mae Moeseg yn ceisio ateb y cwestiwn, 'Sut ddylwn i a sut ddylem ninnau fyw?' Mae nifer fawr o atebion posibl i'r cwestiwn hwn, ond mae'n debyg mai'r ddau fwyaf adnabyddus yw
(a) ymagweddau *deontolegol* (yn seiliedig ar ddyletswydd) sy'n tynnu ar waith Immanuel Kant (1724-1804), a
(b) *teleolegol* (yn seiliedig ar ganlyniadau) sy'n tynnu ar waith Jeremy Bentham (1748-1832) a John Stuart Mill (1806-1873) a elwir yn aml yn Iwtilitariaeth.

Fodd bynnag, mae'r rhain yn 'ddamcaniaethau' moesegol cymharol newydd sy'n deillio o Oleuedigaeth Ewrop yn y 18fed ganrif. Mae damcaniaeth foesegol lawer hŷn, a elwir yn foeseg rhinwedd, yn deillio o'r Hen Roeg ac yn fwyaf nodedig o Aristotle (384-322 CC). Moeseg sy'n *seiliedig ar egwyddor yw* damcaniaethau'r Oleuedigaeth sy'n canolbwyntio ar y weithred neu'r penderfyniad sy'n wynebu rhywun – 'Beth yw'r peth iawn i'w *wneud* yn y sefyllfa hon?' Mae'r ffocws ar gyfer moeseg rhinwedd, mewn cyferbyniad, ar yr unigolyn, gyda'r syniad y bydd y person da neu rinweddol yn gwneud

penderfyniad da, ac yn fwy cyffredinol yn arwain bywyd da. Mewn geiriau eraill, *cymeriad sy'n dod gyntaf*. Ac mae cymeriad rhywun yn cael ei ddatblygu dros amser, gan ddechrau yn ystod plentyndod, ac mae'n cynnwys y cyfuniad o rinweddau ac, yn anffodus, drygioni sy'n ymwreiddio ynddynt fel eu bod yn ffurfio rhan sylfaenol o bwy yw'r person hwnnw.

Bydd gennym fwy i'w ddweud isod am rinweddau a drygioni, ond elfen bwysig arall o foeseg rhinwedd, sydd hefyd yn ei gwahaniaethu oddi wrth foeseg sy'n seiliedig ar egwyddor, yw'r syniad bod pobl yn cael eu deall fel rhai sydd â phwrpas sylfaenol neu dda i'w bywydau. Rhoddodd Aristotle y term *eudaimonia* i hyn, ac, er nad yw ei gyfieithu yn syml, mae Alasdair MacIntyre, y byddwn yn cyfarfod eto isod, yn cynnig y diffiniad hwn: 'bendith, hapusrwydd, ffyniant. Dyma'r cyflwr o fod yn iach a gwneud yn dda, bod [*sic]* dyn yn fodlon ynddo'i hun ac mewn perthynas â'r dwyfol' (MacIntyre, 2007, t. 148). Felly, er bod ystod eang iawn i'r mathau o fywydau ac amgylchiadau y mae pobl yn byw ynddynt, pwrpas pawb yn y pen draw mewn bywyd yw ceisio dod yn rhywun sy'n cyrraedd y cyflwr hwn.

Mae'r ddealltwriaeth hon yn rhoi diffiniad cyntaf i ni o'r rhinweddau:

> Y rhinweddau yw'r union rinweddau hynny y bydd meddu arnynt yn galluogi unigolyn i gyflawni *eudaimonia* ac y bydd eu diffyg yn rhwystro ei symudiad tuag at y *telos* hwnnw.[1] (MacIntyre, 2007, t. 148)

A oes cysylltiad rhwng moeseg rhinwedd, fel y'i disgrifir yn gryno uchod, ac agwedd Gristnogol at foeseg? Yn sicr, credai'r diwinydd a'r athronydd Catholig dylanwadol iawn Thomas Aquinas (1225-1274) fod hyn yn wir, a cheisiodd gyfuno athroniaeth Aristotelaidd ag egwyddorion Cristnogol. Yn dilyn hyn, cynigiwyd set o saith rhinwedd allweddol: y pedair prif rinwedd a nodwyd gan yr athronydd Groegaidd Plato (tua 427-347 CC) — dirwest (hunanreolaeth), cryfder (dewrder), cyfiawnder a doethineb ymarferol; ynghyd â thair rhinwedd ddiwinyddol ffydd, gobaith a chariad (gweler 1 Corinthiaid 13). Roedd y saith rhinwedd hyn yn cael eu gwrthgyferbynnu â'r saith pechod neu ddrygioni marwol: balchder, trachwant, chwant, cenfigen, glythineb, digofaint a diogi. Felly, yn y gorffennol, meddyliwyd am foeseg yn y termau hyn. Roedd yn ymwneud â datblygu cymeriad lle'r oedd y rhinweddau (yn ddelfrydol pob un ohonynt, gan weithredu mewn cytgord) yn cael y flaenoriaeth, a'r pechodau yn cael eu goresgyn – a thrwy hynny yn galluogi'r unigolyn i gyflawni *eudaimonia*.

Yn yr adran nesaf byddwn yn troi i edrych ar waith Alasdair MacIntyre, a sut mae ef wedi datblygu'r syniadau hyn. Ond mae'n werth nodi bod MacIntyre yn ystyried ei hun yn neo-Aristoteliad sydd hefyd yn tynnu ar waith Thomas Aquinas. Wedi dweud hynny, gwaith allweddol MacIntyre y byddwn yn ei ddefnyddio yw *After Virtue*, a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 1981 ac sydd bellach yn ei drydydd argraffiad yn 2007. Ac mae'r llyfr hwnnw'n ddyledus iawn i Aristotle, ac yn llai i Aquinas.

**Cysyniadau MacIntyre o arferion a sefydliadau, a'u perthynas â nwyddau mewnol, allanol a chyffredin: Rôl rhinweddau.**

Tra bo *After Virtue* yn ddyledus iawn i Aristotle, mae MacIntyre yn cyflwyno ei syniad arbennig ei hun, y mae'n rhoi'r enw 'arfer' iddo. Er bod hwn yn derm

[1] Ystyr *Telos* yw pwrpas, a dyma'r enw sy'n gysylltiedig â'r ansoddair *teleolegol*.

digon cyffredin, mae ganddo ystyr llawer mwy penodol mewn golwg:

> Wrth ‘arfer’ rwy’n mynd i olygu unrhyw ffurf gydlynol a chymhleth o weithgarwch dynol cydweithredol a sefydlwyd yn gymdeithasol lle y gwireddir nwyddau y tu mewn i’r math hwnnw o weithgarwch wrth geisio cyflawni’r safonau rhagoriaeth hynny sy’n briodol i, ac yn rhannol yn diffinio’r math hwnnw o weithgaredd, gyda’r canlyniad bod pwerau dynol i gyflawni rhagoriaeth, a syniadau dynol o’r dibenion a’r nwyddau dan sylw, yn cael eu hymestyn yn systematig. (MacIntyre, 2007, t. 187)

Mae hwn yn ddiffiniad eithaf cymhleth (a’r cyfan mewn un frawddeg!), felly mae angen rhywfaint o ddadbacio. Yn gyntaf, gallai rhai enghreifftiau helpu gyda’r syniad o ‘unrhyw ffurf gydlynol a chymhleth o weithgarwch dynol cydweithredol a sefydlwyd yn gymdeithasol’. Mae’r rhain yn cynnwys pêl-droed, gwyddbwyll, pensaernïaeth, ffermio, ffiseg, cemeg, bioleg, gwaith haneswyr, peintio a cherddoriaeth (gweler MacIntyre, 2007, t. 187). Yn wir, er nad yw popeth yn arferiad (gweler Moore, 2017, t. 142-146), a bod MacIntyre yn glir bod rhinweddau hefyd yn cael eu harfer y tu allan i arferion (MacIntyre, 2007, t. 187), mae’n werth nodi, o’r safbwynt hwn, ein bod yn treulio’r rhan fwyaf o’n bywydau yn gweithredu o fewn amrywiol arferion.

Mae hyn yn arwain at yr ail beth y mae angen i ni ei nodi o’r diffiniad, sef bod cymryd rhan mewn arferion yn arwain at wireddu nwyddau mewnol. Mae’r syniad hwn o nwyddau mewnol yn cysylltu â rhywbeth a nodwyd gennym uchod, sef bod gan bobl ddiben eithaf neu les i’w bywydau. Mae’r daioni eithaf hwn bob amser yn rhywbeth y mae angen inni ymdrechu i’w ddeall a’i gyflawni, ond rydym yn gwneud hynny trwy sicrhau nwyddau mwy uniongyrchol sydd, mewn ffordd, yn cronni ac yn help i fod yn rhan o’r daioni eithaf. Mae nwyddau mewnol, er nad yr unig fath o ddaioni, yn allweddol i hyn. Eto, gallai rhai enghreifftiau fod o gymorth. Mae MacIntyre yn disgrifio plentyn sy’n dysgu chwarae gwyddbwyll, sy’n cael ei llwgrwobrwyo gan felysion er mwyn ei hysgogi i ddysgu’r symudiadau a’r tactegau, ond gyda’r gobaith yn y diwedd y bydd yn chwarae nid er mwyn y melysion (neu nid yn unig er mwyn y melysion), ond er mwyn mwynhau’r chwarae, a thrwy hynny ennill ‘cyflawniad o fath arbennig iawn o sgil dadansoddol, dychymyg strategol a dwyster cystadleuol’ (MacIntyre, 2007, t. 188). *Nwyddau mewnol* gwyddbwyll yw’r rhain, ac maent yn fewnol oherwydd dim ond trwy chwarae gwyddbwyll y gellir eu cyflawni, neu ryw weithgaredd cyfatebol arall.

Byddwn yn dod yn ôl at nwyddau mewnol isod, ond y trydydd peth y dylem ei nodi am y diffiniad o arfer yw’r mynd ar drywydd rhagoriaeth sy’n rhan ohono. Unwaith eto, mae hyn yn wahanol iawn i’r damcaniaethau sy’n seiliedig ar egwyddor a grynhoir uchod. Yma, mae cyflawniad nwyddau mewnol yn dibynnu ar ymdrechu am ragoriaeth, ac yn y fath fodd fel bod y ddealltwriaeth o’r nwyddau eu hunain yn cael ei datblygu ymhellach: ceisio efelychu’r chwaraewyr gwyddbwyll gorau, a hyd yn oed fynd y tu hwnt i’r hyn y maent wedi’i gyflawni yn y gêm gwyddbwyll ac er mwyn y gêm.

Gyda’r syniad hwn o arfer yn ei le, mae MacIntyre yn darparu diffiniad pellach o rinwedd:

> Mae rhinwedd yn ansawdd dynol caffaeledig y mae ei feddiant a’i ymarfer yn tueddu i’n galluogi i gyflawni’r nwyddau hynny sy’n fewnol i arferion ac

> y mae eu diffyg yn ein rhwystro i bob pwrpas rhag cyflawni unrhyw nwyddau o'r fath. (MacIntyre, 2007, t. 191)

Mae angen i ni symud ymlaen yn awr oddi wrth arferion i ystyried cysyniad arall pwysig, cysylltiedig – sef sefydliadau. Yn yr un modd ag arferion, mae MacIntyre yn rhoi diffiniad eithaf hir:

> Mae sefydliadau yn nodweddiadol ac o reidrwydd yn ymwneud â'r hyn yr wyf wedi'i alw'n nwyddau allanol. Maent yn ymwneud â chaffael arian a nwyddau materol eraill; maent wedi'u strwythuro o ran pŵer a statws, ac maent yn dosbarthu arian, pŵer a statws fel gwobrau. Ni allent ychwaith wneud yn wahanol os ydynt i gynnal nid yn unig eu hunain, ond hefyd yr arferion y maent yn eu cario. Oherwydd ni all unrhyw arferion oroesi am unrhyw gyfnod o amser heb gael eu cynnal gan sefydliadau. Yn wir, mor agos yw'r berthynas rhwng arferion a sefydliadau — ac o ganlyniad y nwyddau y tu allan i'r nwyddau sy'n fewnol i'r arferion dan sylw—fel bod sefydliadau ac arferion yn nodweddiadol yn ffurfio un drefn achosol lle mae delfrydau a chreadigrwydd yr arfer bob amser yn agored i gael eu niweidio gan gaffael y sefydliad, lle mae'r gofal cydweithredol am nwyddau cyffredin yr arfer bob amser yn agored i ysbryd cystadleuol y sefydliad. Yn y cyd-destun hwn mae nodwedd hanfodol y rhinweddau yn amlwg. Hebddynt, heb gyfiawnder, dewrder a geirwiredd, ni allai arferion wrthsefyll grym llygredig sefydliadau. (MacIntyre, 2007, t. 194)

Unwaith eto, mae angen i ni nodi sawl peth am y diffiniad hwn. Yn gyntaf, mae MacIntyre yn gwahaniaethu ond hefyd yn gwneud cysylltiad rhwng arferion a sefydliadau. Mae'n darlunio hyn gyda'r enghreifftiau canlynol: 'arferion yw gwyddbwyll, ffiseg a meddygaeth; mae clybiau gwyddbwyll, labordai, prifysgolion ac ysbytai yn sefydliadau' (MacIntyre, 2007, t. 194). Felly mae arferion a sefydliadau yn perthyn yn agos ac ni allent fodoli heb ei gilydd. Ond mae tensiwn sylfaenol rhyngddynt hefyd, oherwydd mae arferion i gyd yn ymwneud â nwyddau mewnol, tra bod sefydliadau'n ymwneud yn bennaf â nwyddau allanol. Byddwn yn dod yn ôl at y tensiwn hwn yn yr adran nesaf.

Ond mae hyn yn arwain at yr ail beth y mae angen i ni ei nodi, oherwydd yma rydym yn cwrdd ag ail fath o nwyddau — y rhai sy'n allanol i arferion. Arian, pŵer a statws yw'r enghreifftiau y mae MacIntyre yn eu rhoi o'r nwyddau hyn, ac maent yn allanol oherwydd gellir eu cyflawni mewn unrhyw nifer o ffyrdd y tu allan i arferion, neu'n deillio ohonynt – fel y gallai cael melysion ar gyfer y plentyn sy'n chwarae gwyddbwyll. Nwyddau ydynt – pethau da (nid 'drwg'), ond mae'n amlwg hefyd o'r ffordd y mae MacIntyre yn sôn amdanynt, er eu bod yn angenrheidiol, fod ganddynt beryglon hefyd. Gallem gysylltu hyn â'r sylw yn y Beibl mai gwraidd pob math o ddrwg yw cariad at arian (1 Timotheus 6:10). Sylwch nad arian ei hun, ond cariad ato yw'r broblem. Yn yr un modd yma, mae MacIntyre yn sôn am gaffael, ysbryd cystadleuol a grym llygredig sefydliadau a all godi wrth iddynt geisio nwyddau allanol, ac mae hefyd yn nodi rôl y rhinweddau wrth wrthsefyll hyn.

Eto, byddwn yn dod yn ôl at hyn yn yr adran nesaf, ond am y tro mae'n werth archwilio'r berthynas hon rhwng nwyddau mewnol ac allanol ac ehangu'r syniad o nwyddau ymhellach. Pwynt MacIntyre am nwyddau allanol yw bod eu hangen arnom — dywed 'na all neb eu dirmygu'n gyfan gwbl heb ragrith pendant (MacIntyre, 2007, t. 196). Ond mae hefyd yn amlwg bod angen iddynt fod yn eilradd

i nwyddau mewnol. Nwyddau mewnol sydd yn ein galluogi i chwilio am ein daioni pennaf, a gellir felly ystyried nwyddau allanol yn nwyddau *cyfryngol*—moddion i'r diben oherwydd ni all arferion fodoli hebddynt, ac felly ni ellid cael nwyddau mewnol. Ond nid yw nwyddau allanol yn amcanion ynddynt eu hunain.

Fodd bynnag, mae MacIntyre yn ychwanegu un math arall o nwyddau at y fframwaith hwn y mae'n ei adeiladu — nwyddau cyffredin.[2] Hyd yn hyn, er ein bod eisoes wedi bod yn gweithio ar lefel gymdeithasol arferion a sefydliadau, rydym wedi bod yn meddwl i raddau helaeth o ran nwyddau unigol — sut mae nwyddau mewnol ac allanol yn ein galluogi yn ein chwiliad unigol am les eithaf ein bywydau. Ond mae MacIntyre yn gwneud y pwynt bod cyflawni'r nwyddau hyn yn aml yn golygu cydweithredu ag eraill (edrychwch yn ôl i'r diffiniad o arfer), ac nad yw rhai o'r nwyddau rydyn ni'n dibynnu arnyn nhw yn y chwiliad hwn yn unigol ond yn gyffredin: 'nwyddau teulu, cymdeithas wleidyddol, gweithle, timau chwaraeon, cerddorfeydd, a chwmnïau theatr' (MacIntyre, 2016, t. 51). Rydym hefyd angen y mathau hyn o nwyddau yn ein bywydau ac, fel nwyddau mewnol, dylai nwyddau cyffredin gael blaenoriaeth dros nwyddau allanol tra hefyd i raddau maent yn dibynnu arnynt.

Rydym bellach wedi llunio'r fframwaith y mae MacIntyre yn ei gynnig i ni — o arferion, sefydliadau, nwyddau a rhinweddau. Sut, felly, y gellid cymhwyso hyn i sefydliadau busnes? Dyma'r hyn y trown ato yn yr ail ran.

*Yn ail ran yr erthygl hon, mae'r ffocws yn troi o'r lefel unigol i'r sefydliadol ac yn ystyried goblygiadau fframwaith MacIntyre pan gaiff ei gymhwyso i sefydliadau busnes.*

**Ymestyn syniadau o rinwedd o lefel yr unigolyn i'r lefel sefydliadol**

Mae'r rhan fwyaf o ddamcaniaethau moesegol yn canolbwyntio ar y lefel unigol – 'Sut ddylwn i a sut ddylem ni fyw?' – fel y nodwyd uchod. Ond mae yna gydnabyddiaeth ers tro bod angen ystyried moeseg ar lefelau eraill hefyd. Roedd Aristotle, er enghraifft, yn ymwneud yn arbennig â'r 'ddinas-wladwriaeth' (Athen, er enghraifft) fel 'endid' gwleidyddol sylfaenol ac yn wir foesegol ei ddydd. Yn fwy diweddar, rhoddwyd llawer o sylw i astudio moeseg busnes, er y gallai hyn fod wedi canolbwyntio'n fwy cyffredinol ar sefydliadau o bob math (ysgolion, prifysgolion, elusennau, llywodraeth leol, ac ati). Ac nid y cwestiynau a godir ar y lefel ganolradd hon (rhwng unigolyn a gwladwriaeth) yw, 'Sut y dylwn i ac y dylem ninnau fyw ac ymddwyn yn y gwaith?', ond hefyd, 'Beth fyddai'n ei olygu i sefydliad gael ei ystyried fel un moesegol (neu ddim)?'

Nid dyma'r lle i drafod yn fanwl a yw moeseg yn 'gweithio' ar y lefel hon. Digon yw dweud nad oes unrhyw fwriad i wneud honiad ontolegol y gellir ystyried sefydliadau, oherwydd eu natur, yn gyfwerth â phobl. Ond y pwynt yw gwneud yr honiad y gallwn siarad yn synhwyrol, *fel trosiad*, am foeseg sefydliadol neu fusnes (am ragor ar hyn, gweler Moore, 2017, tt. 50-53). Ac mae'n werth nodi ein bod yn gwneud hyn eisoes pan fyddwn yn defnyddio syniadau fel 'strategaeth fusnes' (fel petai gan y busnes strategaeth ei hun, yn annibynnol ar y bobl sy'n rheoli'r busnes), neu 'ddiwylliant sefydliadol' (fel petai gan y

[2] Mae'r term 'lles cyffredin' yn cael ei ddefnyddio'n eithaf aml y dyddiau hyn, ac mae'n deillio o'i ddefnydd mewn Addysgu Cymdeithasol Catholig. Tra bod defnydd MacIntyre yn debyg i'w wreiddiau Catholig, mae'n defnyddio'r ffurf luosog yn fwriadol i wneud y pwynt bod llawer o fathau o les cyffredin.

sefydliad ffordd o wneud pethau, yn annibynnol ar y ffordd y mae pobl yn y sefydliad yn gwneud pethau).

Gyda hynny mewn golwg, gallwn ddefnyddio'r fframwaith y mae MacIntyre yn ei gynnig i ni a gweld i ble mae hynny'n mynd â ni. Ac y mae eisoes yn amlwg o'r drafodaeth uchod y gellir cymhwyso syniadau MacIntyre am arferion a sefydliadau ar y lefel drefniadol: 'arferion yw gwyddbwyll, ffiseg a meddygaeth; mae clybiau gwyddbwyll, labordai, prifysgolion ac ysbytai yn sefydliadau' (MacIntyre, 2007, t. 194, fel y dyfynnwyd uchod). Yn deillio o hyn, dadleuwyd y gellir ystyried sefydliadau (busnes) fel *cyfuniadau ymarfer-sefydliad* (gweler Moore, 2017). Mewn geiriau eraill, gellir meddwl bod sefydliad busnes yn cynnwys dwy ran ryng-gysylltiedig. Mae'r arfer yn greiddiol iddo (er enghraifft, mwyngloddio, gweithgynhyrchu neu fanwerthu), a'r sefydliad sy'n ei 'gartrefu'[3] (er enghraifft, Rio Tinto plc, Unilever plc neu Tesco plc).

Ond mae MacIntyre yn ein galluogi i ddatblygu hyn ymhellach. Wrth siarad am nwyddau mewnol (y rhai sy'n cael eu gwireddu wrth geisio rhagoriaeth o fewn arfer), mae'n nodi'r rhain fel y cynhyrchion a/neu'r gwasanaethau y mae'r sefydliad yn eu darparu, a 'pherffeithrwydd' (neu lewyrch dynol) ymarferwyr y sefydliad (neu weithwyr, fel y byddem yn cyfeirio atynt fel arfer) (gweler MacIntyre, 2007, tt. 187-196, a MacIntyre, 1994, t. 284). Mae dau beth yn dilyn o hyn. Yn gyntaf, mae'r nwyddau mewnol hyn *yn rhoi pwynt a phwrpas* i'r sefydliad cyfan. Dyma'r hyn y mae'n bodoli ar ei gyfer—cynhyrchu cynhyrchion a/neu wasanaethau rhagorol, a galluogi ei weithwyr i ffynnu. Yn ail, y nwyddau mewnol hyn sy'n cyfrannu at y lles cyffredin. Mae MacIntyre yn sôn am y rhai sydd, yn ddelfrydol, yn eu cael eu hunain yn 'cyd-ystyried ag eraill ynghylch sut i weithredu yn y set benodol hon o amgylchiadau ar y funud yma er mwyn cyflawni lles cyffredin y fenter benodol hon' (2016, t. 174)[4]. Felly rydym yn gweld sut y gall sefydliadau busnes gyfrannu at les cyffredin trwy'r nwyddau mewnol y maent yn eu cynhyrchu.

Ond yna mae yna hefyd nwyddau allanol i'w hystyried. Cofiwch bod nwyddau allanol yn gysylltiedig â'r sefydliad, a bod MacIntyre wedi nodi arian, pŵer a statws fel enghreifftiau. Yn fwy cyffredinol, mewn perthynas â sefydliadau busnes, efallai y byddwn yn cysylltu nwyddau allanol ag elw a llwyddiant. Mae elfen sefydliadol y cyfuniad arfer-sefydliad o reidrwydd (cofiwch mai 'nwyddau' yw'r rhain) yn ceisio elw oherwydd mae angen hyn i gynhyrchu'r adnoddau sy'n galluogi'r arfer i oroesi a ffynnu. Yn yr un modd, mae'n ceisio llwyddiant (cyferbynnwch hyn â mynd ar drywydd rhagoriaeth yn yr arfer) er mwyn goroesi a ffynnu yn y tymor hir. Ac mae perthynas agos hefyd rhwng nwyddau mewnol ac allanol, gan mai trwy werthu'r cynhyrchion a/neu'r gwasanaethau y mae'r arfer yn eu cynhyrchu, (a sgiliau angenrheidiol a rhagoriaeth y gweithwyr wrth wneud hynny) y mae'r sefydliad yn cael ei elw.

Gallai hyn awgrymu cyfuniad hapus o arfer a sefydliad, ac yn ddelfrydol, ac weithiau yn ymarferol, felly y mae. Ond cofiwch hefyd y tensiwn sylfaenol y mae MacIntyre yn ei nodi rhwng arferion a sefydliadau, sef bod 'delfrydau a chreadigrwydd yr arfer bob amser yn agored i gaffael y sefydliad, [a] lle mae'r gofal cydweithredol am

3 Mae MacIntyre yn defnyddio'r gair 'cludwr' yn ei ddiffiniad o sefydliad uchod, ac mewn mannau eraill mae'n cyfeirio at y sefydliad fel 'cynhaliwr cymdeithasol' yr arfer (MacIntyre, 2007, t. 195).

4 Mae MacIntyre yn defnyddio 'menter' yn gyffredinol i gynnwys teulu, ysgol a gweithle, ymhlith eraill.

nwyddau cyffredin yr arfer bob amser yn agored i natur gystadleuol y sefydliad' (2007, t. 194, a ddyfynnir uchod). Mewn geiriau eraill, er na allant fodoli ar wahân i'w gilydd, mae sefydliadau busnes bron bob amser yn agored i'r tensiwn hwn, gyda mynd ar drywydd nwyddau allanol y sefydliad (elw, llwyddiant) yn tra-arglwyddiaethu ar nwyddau mewnol yr arfer (rhagoriaeth y cynhyrchion a/neu'r gwasanaethau, a ffyniant y gweithwyr).

**Sefydliadau busnes rhinweddol fel ffordd gadarnhaol ond heriol o edrych ar rôl busnes mewn cymdeithas**

Mae'r tensiwn sylfaenol a chynhenid sy'n bodoli ym mhob sefydliad busnes wedi arwain at ymdrechion i ddisgrifio sut y gallai sefydliad busnes 'rhinweddol' edrych. Ac, o ystyried y cyfan a ddywedwyd uchod, ni ddylai'r nodweddion canlynol fod yn arbennig o syndod. Byddai sefydliad busnes rhinweddol yn un sydd:

- â *phwrpas da*, sy'n cael ei wireddu wrth geisio rhagoriaeth mewn perthynas â nwyddau mewnol (rhagoriaeth ei gynhyrchion a/neu wasanaethau a ffyniant ei weithwyr), ac yn y cyfraniad a wna i nwyddau cyffredin;
- yn cydnabod mai ei swyddogaeth bwysicaf yw cynnal ac annog rhagoriaeth yn yr arfer y mae'n ei 'gartrefu';
- yn canolbwyntio'n drefnus ar gyflawni nwyddau allanol, yn y fath fodd fel bod nwyddau mewnol a chyffredin yn cael eu blaenoriaethu (gweler Moore, 2017).

Mae'n werth dweud ychydig mwy am y cyntaf a'r olaf o'r rhain, mewn cyferbyniad â'r ffordd y mae sefydliadau busnes yn aml yn cael eu hamgyffred. Mae'n eithaf cyffredin clywed y farn mai pwrpas busnes yw elw, ac yn fwy arbennig mewn perthynas â busnesau sy'n eiddo i gyfranddalwyr mai gwneud y mwyaf o gyfoeth i'r cyfranddalwyr yw'r pwrpas. Ar sail yr ymagwedd a amlinellwyd yma, mae hyn yn gamgymeriad mewn tair ffordd.

Yn gyntaf, ac yn fwyaf amlwg, mae'n amlwg yn blaenoriaethu'r hyn y gallwn yn awr ei alw'n nwyddau allanol (na ddylid byth ond eu hystyried fel nwyddau cyfryngol) dros nwyddau mewnol a chyffredin. Ond yn ail, mae'n methu â chydnabod yr hyn sydd hefyd yn gynhenid yn yr ymagwedd a amlinellir yma, nad oes unrhyw nwyddau allanol heb yr arfer a'r nwyddau mewnol sy'n deillio ohono. Felly bydd blaenoriaethu nwyddau allanol, yn y tymor hir, yn peryglu'r sefydliad busnes cyfan – y cyfuniad o arfer a sefydliad. Yn drydydd, trwy gyffredinoli'r ymchwil am nwyddau allanol – fel nad oes gwahaniaeth mewn gwirionedd sut y cynhyrchir y rhain – mae'n lleihau arferion a cheisio cael rhagoriaeth ynddynt.

I ddod i gasgliad, mae'r ffordd hon o ymdrin â moeseg sefydliadau busnes yn cynnig golwg gadarnhaol ond hefyd heriol ar rôl busnes mewn cymdeithas.

Y farn gadarnhaol yw meddwl am sefydliadau busnes (ymysg sefydliadau yn gyffredinol) fel rhai sy'n gallu gwneud cyfraniad adeiladol i gymdeithas (lles pawb). Gallant wneud y cyfraniad hwn trwy ragoriaeth y cynhyrchion a/neu'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt, a thrwy alluogi eu gweithwyr i ffynnu. Ac mae sefydliadau busnes hefyd yn cynhyrchu nwyddau allanol, na ddylid eu dirmygu ('ni all neb eu dirmygu'n llwyr heb rywfaint o ragrith', MacIntyre, 2007, t. 196, fel y dyfynnwyd uchod), ond sydd, fel y gwelsom, yn beryglus os rhoddir blaenoriaeth iddynt. Yn wir, mae MacIntyre yn rhybuddio, 'Dylem ddisgwyl felly, pe

bai’r cais am nwyddau allanol mewn cymdeithas benodol yn dod i dra-arglwyddiaethu, y gallai cysyniad y rhinweddau ddioddef athreuliad i ddechrau ac yna ei ddileu bron yn llwyr, er y gallai fod dynwarediadau lu’ (2007, t. 196).

Ond yr her y mae’r ymagwedd hon yn ei golygu mewn perthynas â rôl busnes mewn cymdeithas, yw ei bod yn mynd yn groes i’r doethineb a dderbynnir sy’n gweld sefydliadau busnes fel modd i gynhyrchu elw a chyfoeth cyfranddalwyr. Nid yw sefyll allan yn erbyn y doethineb a dderbyniwyd yn hawdd i’r sefydliad busnes ‘rhinweddol’, a bydd angen rhinweddau doethineb a dewrder, ymhlith eraill, yn y rheiny sy’n ymwneud â’r arfer craidd ac yn y rheiny (uwch reolwyr) sy’n cynrychioli’r sefydliad.

Ac yn olaf, i gysylltu’n ôl â’r hyn a nodwyd gennym yn yr adran agoriadol am y ffordd y mae *cymeriad yn dod yn gyntaf* mewn ymagwedd moeseg rhinwedd, a gyda’r hyn a ddywedwyd yn y drydedd adran am drosiad, mae’r ffordd hon o feddwl am sefydliadau busnes yn rhagweld y bydd angen i’r sefydliadau eu hunain ddatblygu eu *cymeriad* rhinweddol eu hunain, gan feddu ar ac arfer yr hyn y gallem ei alw (yn drosiadol) yn rinweddau corfforaethol, a diffyg camweddau corfforaethol (gweler Moore, 2017, tt. 124-131). Ond efallai fod honno’n drafodaeth at ddiwrnod arall.

## Cyswllt rhyngrwyd

Os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy am Alasdair MacIntyre, mae grŵp o academyddion sy’n dilyn ac yn datblygu ei waith ar draws ystod eang o ddisgyblaethau: gweler The International Society for MacIntyrean Inquiry .

## Pwyntiau trafod

1. A ydych chi’n gweld moeseg rhinwedd yn ffordd argyhoeddiadol o ymdrin â moeseg? Os felly, pam? Os na, pam lai?
2. Ym mha ffyrdd y mae fframwaith MacIntyre o arferion, sefydliadau, nwyddau a rhinweddau yn helpu i ddatblygu’r syniad sylfaenol o rinwedd?
3. A yw cymhwyso’r fframwaith hwn i sefydliadau (busnes) yn ffordd ddefnyddiol o feddwl am sefydliadau? Os felly, pam? Os na, pam lai?
4. Ydych chi’n meddwl y byddai sefydliadau busnes rhinweddol yn gallu goroesi yn yr amgylchedd presennol, ac os felly sut?

## Cyfeiriadau

MacIntyre, A. (1994). 'A partial response to my critics'. In *After MacIntyre* (pp. 283-304). Eds. J. Horton & S. Mendus, Cambridge: Polity Press.

MacIntyre, A. (2007). *After virtue. A study in moral theory*, 3rd ed. London: Duckworth.

MacIntyre, A. (2016). *Ethics in the conflicts of modernity. An essay on desire, practical reasoning, and narrative*. Cambridge: Cambridge University Press.

Moore, G. (2017). *Virtue at work: Ethics for individuals, managers, and organizations*. Oxford: Oxford University Press.

*Roedd yr Athro Geoff Moore yn Athro Moeseg Busnes yn Ysgol Fusnes Prifysgol Durham. Bellach mae ganddo safle Emeritws ac mae'n parhau i addysgu ac ymchwilio.*

Herio Materion Crefyddol
Rhifyn 20 2023
© Mathew Guest
Canolfan y Santes Fair
a Sant Silyn
ISSN 2053-5171

# Gwneud Synnwyr o Anghrefydd: Ailedrych ar Seciwlariaeth o’r Ochr Arall…

Mathew Guest

*Mae’r erthygl hon yn ystyried y cwestiwn o seciwlariaeth o safbwynt y rhai sy’n eu galw eu hunain yn ‘anghrefyddol’ ac yn gofyn beth allai’r label hwn ei olygu.*

*Cysylltiadau â’r fanyleb:*
*OCR 2c. Cynnwys Datblygiadau mewn meddwl Cristnogol (H573/03); 6. Heriau – Her Seciwlariaeth*
*CBAC/CBAC Uned 3: Astudiaeth o Grefydd – Opsiwn A: Astudiaeth o Gristnogaeth – Thema 2: Datblygiadau hanesyddol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol*
*EDEXCEL Papur 4, Opsiwn 4B: Cristnogaeth, 4. Datblygiadau Hanesyddol a Chymdeithasol, 4.2: Seciwlariaeth*
*AQA 3.2.2 2B Cristnogaeth – Adran A: Cristnogaeth – Cristnogaeth a her seciwlariaeth*

**Cyflwyniad**

Yn 2008 comisiynodd y sefydliad Cristnogol efengylaidd *JesusSaid.org* ymgyrch hysbysebu ar fysiau cyhoeddus, yn hyrwyddo adnodau o’r Beibl yn unol â’u dealltwriaeth o ffydd Gristnogol. Mewn ymateb, lansiodd yr awdur comedi Ariane Sherine, gyda chefnogaeth yr anffyddiwr amlwg a’r biolegydd esblygiadol Richard Dawkins ynghyd â’r mudiad *Humanists UK*, eu hymgyrch eu hunain, yn seiliedig ar y neges ‘There’s probably no God. Now stop worrying and start enjoying your life’. Cafodd gofod hysbysebu a ddefnyddir fel arfer i hyrwyddo’r ffilmiau Hollywood diweddaraf ei ail-bwrpasu fel maes y gad ar gyfer ymgiprys rhwng efengyliaeth ac anffyddiaeth.

Sbardunodd yr ymgyrch ddadl gyhoeddus am yr honiadau a wneir gan draddodiadau crefyddol, neges foesol dyneiddiaeth, a’r cwestiwn ynghylch a oes cyfiawnhad dros y safle breintiedig sydd i grefydd yng nghymdeithas y DU, un nad oes lle iddo yn yr 21ain ganrif. Roedd y ddadl yn aml yn angerddol ac yn cynnwys llefarwyr (fel Dawkins) sy’n gysylltiedig ag adfywiad y teimlad gwrth-grefyddol y cyfeirir ato’n gyffredin fel yr ‘anffyddiaeth newydd’. Mae ei heiriolwyr

yn tueddu i weld crefydd naill ai fel nonsens ofergoelus a/neu nonsens sy'n niweidiol yn gymdeithasol, gan feithrin meddwl cul, parodrwydd i farnu a thrais. Mae rhai wedi awgrymu bod absoliwtiaeth 'du a gwyn' yr anffyddwyr angerddol hyn yn golygu eu bod yn haeddu cael eu galw'n 'ffwndamentalwyr', er yn rhai anghrefyddol.

Ymlaen yn gyflym i 2016, ac at Arolwg Agweddau Cymdeithasol Prydain, oedd yn dangos, am y tro cyntaf, bod y rhai a ddywedodd 'nad oes ganddynt grefydd' wedi dod yn fwyafrif ym Mhrydain. Canfu eu harolwg blynyddol, a oedd wedi canfod bod 31% o'r cyhoedd ym Mhrydain yn nodi eu bod yn 'anghrefyddol' pan gafodd ei lansio gyntaf ym 1983, fod y ffigur hwn, yn ail ddegawd yr 21ain ganrif, wedi cynyddu i 53%.

Felly, mae Prydain bellach yn wlad seciwlar, iawn? Dawkins a'r anffyddwyr newydd sydd wedi ennill. Wel, nid o reidrwydd. Er bod y dystiolaeth bod gan Brydain gyfran uwch o ddinasyddion sy'n dewis disgrifio'u hunain fel rhai sydd 'heb grefydd' yn gryf, yr hyn sy'n llai clir yw ystyr hyn mewn gwirionedd. Fel sy'n digwydd yn aml, mae'r gwirioneddau ar lawr gwlad yn ymddangos yn llawer mwy cymhleth na'r hyn yr hoffai penawdau'r cyfryngau i ni gredu.

**Seciwlareiddio a'r seciwlar ar draws cymdeithasau**

Gellir gweld y twf hwn yng nghyfran yr 'anghrefyddol' ar draws cymdeithasau Gorllewinol fel y'u gelwir. Mae hyd yn oed UDA sy'n enwog am fod yn grefyddol yn dilyn y patrwm hwn, os yn arafach na Gorllewin Ewrop. Canfu Canolfan Ymchwil Pew, sy'n arbenigo mewn casglu data ar grefydd yr Unol Daleithiau, fod 29% o boblogaeth yr Unol Daleithiau yn honni eu bod yn 'heb gysylltiad crefyddol' yn 2021. Mae hynny'n llawer is na ffigurau'r DU, ond mae hefyd wedi profi twf cyflym (o 16% yn 2007). Felly wrth iddi ymddangos fod y lleisiau crefyddol cryfaf yn UDA yn mynd yn uwch (ac yn mynnu mwy o fodfeddi colofn o boptu i Fôr yr Iwerydd), ar yr un pryd mae cyfran yr Americanwyr anghrefyddol yn ymddangos yn uwch nag erioed. Yn hytrach na chenedl sy'n nes at seciwlareiddio, disgrifiad fwy cywir o UDA fyddai gwlad hollt, begynol. Mae lleisiau hynod grefyddol a hynod seciwlar yn gweiddi'n fwyfwy uchel ar ei gilydd ar draws y bwlch.

Ac eto mae gan y patrwm cyffredinol, sy'n pontio llawer o ffiniau diwylliannol, lawer i'w wneud â seciwlareiddio. Wedi'i ddiffinio yn y 1960au gan y cymdeithasegydd Bryan Wilson fel y broses lle mae crefydd yn 'colli arwyddocâd cymdeithasol', mae seciwlareiddio wedi cael ei olrhain ar hyd amrywiaeth o lwybrau mewn ystod o gyd-destunau cenedlaethol gwahanol iawn. Wedi'i fesur yn fwyaf syml yn nhermau lefelau gostyngol o bresenoldeb rheolaidd mewn addoldai crefyddol, cymerwyd bod seciwlareiddio yn arwydd o ddirywiad mewn diddordeb mewn crefydd yn fwy cyffredinol. Fodd bynnag, mae natur seciwlareiddio fel proses yn llawer mwy cymhleth.

Mae hen ragdybiaeth wedi honni, wrth i gymdeithasau ddod yn fwy modern, eu bod yn dod yn llai crefyddol. Deellir weithiau mai'r union gysylltiad cymdeithasegol yw datblygiad gwyddoniaeth a thechnoleg – sy'n rhoi atebion i gwestiynau pwysig sydd bellach yn fwy argyhoeddiadol na'r rhai a gynigir gan draddodiadau crefyddol, neu dwf plwraliaeth grefyddol – sy'n tanseilio'r honiadau gwirionedd a wneir gan unrhyw un grefydd trwy gyflwyno ffaith gymdeithasol llawer o grefyddau, a'r cyfan o bosibl yn ymddangos yn berffaith gredadwy ar eu telerau eu hunain. Mae'n bosibl gweld sut mae gwahanol

fecanweithiau yn gorbwyso mwy neu lai mewn gwahanol gymdeithasau.

Mae damcaniaethau mwy cymhleth seciwlareiddio yn edrych ar y berthynas rhwng crefydd a'r wladwriaeth, a sut mae hyn yn creu patrymau hirdymor sy'n datblygu'n wahanol mewn gwahanol genhedloedd. Mae'r ffaith bod gwledydd sydd ag eglwys genedlaethol – fel Sweden, Norwy a'r DU – hefyd yn dueddol o fod â lefelau isel iawn o gyfranogiad eglwysig yn awgrymu bod cyfyngiadau i'r manteision o fod yn gysylltiedig â'r wladwriaeth (Guest et al., 2012). Mewn cyferbyniad, mae UDA a Ffrainc ill dau wedi'u rhwymo gan gyfansoddiadau ysgrifenedig sy'n cynnwys gwahanu eglwys a gwladwriaeth, ac felly'n cael eu disgrifio weithiau fel rhai seciwlar. Mae ystyr hyn, fodd bynnag, yn wahanol iawn yn y ddau achos yma. Mae'r diwygiad cyntaf i Gyfansoddiad UDA yn darllen: 'Ni fydd y Gyngres yn gwneud unrhyw gyfraith sy'n parchu sefydliad crefydd, nac yn gwahardd ei hymarfer rhydd'. Mynegir gwahanu crefydd oddi wrth y wladwriaeth yn yr un frawddeg â galwad i amddiffyn rhyddid mynegiant crefydd. Yn unol â hynny, mae hanes UDA yn dyst i dirwedd grefyddol amrywiol a helaeth; mae mudiadau crefyddol wedi ffynnu oherwydd eu bod wedi bod yn gymharol rydd o ymyrraeth y wladwriaeth. Mewn cyferbyniad, yn Ffrainc, mae gwahanu eglwys a gwladwriaeth wedi arwain at gysyniad o ddinasyddiaeth mewn termau seciwlar. Mae crefydd yn cael ei symud nid yn unig o'r wladwriaeth ond o'r parth cyhoeddus, a disgwylir iddi gael ei datgan yn breifat. O ganlyniad, mae mynegiadau cyhoeddus o hunaniaeth grefyddol yn aml yn cael eu hystyried gydag amheuaeth, a gydag ofn weithiau hyd yn oed.

Cysylltir seciwlareiddio yn gyffredin â gwledydd sydd ag economïau cyfalafol a systemau llywodraethu democrataidd rhyddfrydol – fel y DU ac UDA, ond hefyd Canada, Awstralia, Seland Newydd a'r rhan fwyaf o Ewrop. Mae tystiolaeth o fywiogrwydd crefyddol – twf hyd yn oed – yn Ne America, Affrica a rhannau o'r Dwyrain Pell wedi'i gwneud hi'n fwyfwy anodd siarad am seciwlariaeth fel tueddiad byd-eang. Mae rhai hyd yn oed wedi dadlau mai'r eithriad yn hytrach na'r rheol yw Ewrop (gan gynnwys y DU) (Davie, 2002), ac y byddai'n dda i ni oedi a myfyrio cyn cymryd bod y byd i gyd o reidrwydd ar yr un llwybr â'n cymdeithas ein hunain.

Ond ydyn ni wir yn gwybod beth yw'r llwybr hwn, beth bynnag? A yw'r mwyafrif Prydeinig sy'n disgrifio eu hunain fel rhai 'anghrefyddol' yn rhannu persbectif cyffredin? A allwn gasglu o'u hymateb i Arolwg Agweddau Cymdeithasol Prydain eu bod yn ymwrthod â phob math o grefydd, ac am yr un mathau o resymau? Sut mae'r label hwn – 'di-grefydd' – i'w ddeall? A sut mae'n berthnasol i dermau mwy cyffredin fel dyneiddiwr, anffyddiwr neu agnostig?

Ceir corff cynyddol o ysgolheictod ar yr 'anghrefyddol'. Mae'n datgelu amrywiaeth o gyfeiriadau sy'n rhybuddio yn erbyn cyffredinoli yn syml am yr hyn y mae'r anghrefyddol yn ei gynrychioli, a sut mae eu statws anghrefyddol yn dylanwadu ar sut maent yn byw eu bywydau. Yng ngweddill yr erthygl hon, cynigiaf deipoleg ar gyfer deall y gwahanol safbwyntiau a allai gael eu cwmpasu gan y categori 'anghrefydd', gan ganolbwyntio'n arbennig ar y cyd-destun Prydeinig.

**Dadansoddi'r 'dim'**

Mae'n ymddangos bod yr unigolion hynny sy'n cadarnhau eu safbwynt ar grefydd gan ddefnyddio 'dim' fel eu hateb mewn arolygon yn perthyn i sawl is-gategori llac.

*Y cwbl ddifater*, nad oes ganddynt ddiddordeb mewn crefydd nac unrhyw beth tebyg i'r lled-grefyddol neu'r ysbrydol, heb gysylltiad hiraethus â chrefydd na sefydliadau crefyddol a etifeddwyd o'u magwraeth. Byddai unigolion o'r fath wedi bod yn brin hyd yn oed o fewn cenhedloedd Gorllewin Ewrop tan y degawdau diwethaf. Fodd bynnag, gyda llawer bellach yn 'ddim' o'r ail neu'r drydedd genhedlaeth, nid yw nifer dda o bobl ifanc erioed wedi bod yn gyfarwydd â thraddodiad crefyddol o gwbl. Efallai na fydd y rhai sy'n byw y tu allan i ddinasoedd crefyddol amrywiol ychwaith yn adnabod unrhyw bobl grefyddol. Efallai mai dim ond trwy ambell stori newyddion boblogaidd y bydd materion crefyddol yn cyffwrdd â'u hymwybyddiaeth, ac efallai na fydd y rhain yn ennyn llawer o ddiddordeb chwaith.

*Yr ymarferwyr crefyddau amgen neu ysbrydolrwydd*, sy'n annhebygol o'u disgrifio'u hunain fel 'crefyddol' oherwydd amharodrwydd i fod yn gysylltiedig â thraddodiadau crefyddol prif ffrwd. Gallant fod yn ddifrifol iawn ac yn ymroddedig i draddodiadau neu arferion fel yoga, myfyrdod trosgynnol, wica neu baganiaeth. Gallant hefyd ddewis disgrifio eu hunain fel rhai 'ysbrydol' yn hytrach na chrefyddol.

*Y lled-grefyddol*, nad ydynt yn arddangos llawer, neu ddim, o arwyddion crefydd yn yr ystyr gonfensiynol, ond serch hynny yn cadarnhau agweddau a gwerthoedd nad ydynt yn cyd-fynd yn hawdd â'r hyn y mae Herbert a Bullock yn ei alw'n 'olwg byd-eang rhesymegol-faterol' (2018, t. 158). Mae'r categori hwn yn cynnwys ofergoeliaeth, crefydd werin neu gredu yn y paranormal; gall hefyd ymgorffori syniadau sy'n gysylltiedig â damcaniaethau cynllwyn. Mae credoau'r rhai yn y categori hwn yn annhebygol o gydlynu i un system neu draddodiad, na chael eu hadlewyrchu mewn unrhyw gyfres barhaus o arferion, defodau neu ddewisiadau mawr o ran ffordd o fyw.

*Y diwylliannol grefyddol*, sy'n arddangos nemor ddim arwyddion o grefydd gonfensiynol, os o gwbl, ond serch hynny yn cadw ymlyniad at grefyddau prif ffrwd o natur enwol neu hiraethus (Day, 2013). Mae'n bosibl eu bod yn gweld crefydd yn gyffredinol – neu draddodiad crefyddol penodol – fel ffynhonnell bwysig o ddoethineb moesol ac yn cydnabod ei phwysigrwydd i hunaniaeth pobl eraill, hyd yn oed os ydynt yn ei chael yn amhosibl cofleidio athrawiaethau diwinyddol. Efallai eu bod hyd yn oed yn mynychu ambell ddefod neu wasanaeth crefyddol, p'un ai i gefnogi aelodau eraill o'r teulu neu allan o ryw deimlad y gallai'r profiad fod o werth, hyd yn oed os na allant arddel y credoau a gadarnheir yno. Gall rhai ddewis 'dim crefydd' fel categori a ffafrir er mwyn ymbellhau oddi wrth yr elfennau mwy theistig neu ddiwinyddol y maent yn eu hystyried yn greiddiol i'r traddodiad y mae ganddynt ymlyniad tenau iddo.

*Yr anffyddwyr gwybyddol*, y mae cred yn Nuw, y dwyfol neu'r goruwchnaturiol yn afresymol a di-sail iddynt, ac sy'n credu bod yr argyhoeddiad hwn yn bwysig i bwy ydyn nhw. Mae eu diffyg cred yn fater o argyhoeddiad unigol a deallusol. Efallai y byddan nhw'n darllen am anffyddiaeth a chrefydd, ac yn eu trafod gyda ffrindiau, fel bod y dadleuon a'r syniadau sy'n gysylltiedig â'r ddadl hon yn bwysig, ond maen nhw'n aros o fewn y byd deallusol a chymdeithasol. Nid ydynt yn cael eu gwleidyddoli na'u gweithredu arnynt, ac eithrio fel pwnc diddorol i'w drafod ymhlith cyfoedion o'r un anian. Oherwydd hynny, er ei fod yn safbwynt sy'n seiliedig ar ymrwymiad gwybyddol (gwybodaeth, meddwl), gall hefyd fod yn debyg i'r hyn y mae'r anthropolegydd Matthew Engelke wedi'i

ddisgrifio fel 'dyneiddiaeth fyw' (Engelke, 2014).

*Y seciwlarydd*, sy'n credu nad oes gan grefydd o unrhyw fath le o fewn cylch cyhoeddus cymdeithas. Mae crefydd yn cael ei hystyried yn gyffredinol fel rhywbeth sydd â'r potensial ar gyfer meddwl afresymol a/neu drais ac felly mae'n peri risg i'r drefn gymdeithasol a llywodraethu cadarn. Maent yn debygol o fod yn anffyddwyr hefyd, er nad o reidrwydd ym mhob achos. Mae argyhoeddiadau'r seciwlarwyr am grefydd yn ymestyn i bersbectif gwleidyddol, a gall rhai fynegi eu hargyhoeddiadau trwy gymryd rhan mewn gweithredu er mwyn hyrwyddo achosion seciwlaraidd.

Dyma'r persbectif sy'n cyd-fynd fwyaf ag ymgyrch Richard Dawkins a ddisgrifiwyd yn gynharach, ac ag agenda'r 'anffyddwyr newydd'. Ac eto mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai dim ond lleiafrif o'r rhai sy'n nodi eu bod yn anghrefyddol yn y cyd-destun Prydeinig yw'r rhai sy'n seciwlaraidd yn yr ystyr yma. Mae arolwg cenedlaethol a ddadansoddwyd gan Linda Woodhead yn taflu mwy o oleuni ar yr hyn sy'n nodweddu'r boblogaeth 'anghrefyddol' hon. Mae hi'n gweld bod y label hwn yn fwy poblogaidd ymhlith pobl iau na phobl hŷn (mae 60% o'r rhai dan 40 yn disgrifio'u hunain fel rhai 'anghrefyddol'), ac mae'r mwyafrif helaeth yn wyn Prydeinig. Mae'r anghrefyddol yn fwy rhyddfrydol eu gwerthoedd na Christnogion a Mwslimiaid, er enghraifft; yn fwy rhyngwladol yn eu gwleidyddiaeth ac yn fwy derbyniol o'r rhai sy'n wahanol iddynt hwy eu hunain. Ond lleiafrif yn unig sy'n anffyddwyr o argyhoeddiad. Gan adleisio rhai o'r teimladau a amlinellwyd yn rhai o'r categorïau eraill a ddisgrifir uchod, mae Woodhead hefyd yn canfod nad yw'r 'anghrefyddol' hyn yn 'cefnu ar y gred bod yna bethau y tu hwnt i'r bywyd hwn sy'n rhoi ystyr iddo' (Woodhead, 2016, t. 45).

## Geirfa

*agnosticiaeth* yw'r sefyllfa o aros yn ansicr, heb ymrwymiad neu'n amwys o ran bodolaeth Duw.

*anffyddiaeth* yw'r gred nad oes yna Dduw ('atheism' yn Saesneg, yn wahanol i 'theistiaeth', y gred yn Nuw).

*dyneiddiaeth*: mae'r gair hwn wedi magu amrywiaeth o ystyron yn ystod ei hanes ac mae'n cael ei ddatblygu'n wahanol gan y mudiadau sy'n ei hyrwyddo fel safle athronyddol. Fodd bynnag, maent yn tueddu i fod â chred gyffredin bod gan fodau dynol allu cynhenid i weithredu'n foesol heb fod angen unrhyw ffynhonnell allanol (gan gynnwys y goruwchnaturiol) y tu allan i ddynoliaeth.

*anghrefyddol*: term sy'n deillio o arolygon holiadur sy'n dangos yn syml bod person wedi ateb cwestiwn am grefydd trwy ddatgan nad oes ganddo un. Felly mae'n cwmpasu amrywiaeth o safbwyntiau posibl.

*seciwlareiddio*: y broses lle mae cymdeithas neu gymdeithasau yn dod yn llai crefyddol.

*seciwlariaeth*: safbwynt ideolegol a nodweddir gan yr argyhoeddiad y dylai cymdeithas gael ei threfnu fel nad yw crefydd yn chwarae unrhyw ran yn ei bywyd cyhoeddus.

## Cysyllt rhyngrwyd

https://www.bsa.natcen.ac.uk/media-centre/archived-press-releases/bsa-34-record-number-of-brits-with-no-religion.aspx (data Agweddau Cymdeithasol Prydain ar grefydd ac anghrefydd ym Mhrydain)

https://www.pewresearch.org/religion/2021/12/14/about-three-in-ten-us-adults-are-now-religiously-unaffiliated/ (Astudiaeth Pew ar grefydd yn UDA, 2021)

## Pwyntiau trafod

1. A yw disgrifio cymdeithas fel un ‘seciwlar’ yr un mor broblemus â’i disgrifio fel un ‘grefyddol’? ‘Seciwlar’ yn ôl pwy? Mwyafrif y boblogaeth? Os felly, beth mae hyn yn ei olygu i leiafrifoedd crefyddol?
2. A yw statws seciwlar wedi’i ddiffinio’n fwy o’r brig i lawr, trwy gyfansoddiadau llywodraeth, mesurau cyfreithiol neu areithiau gwleidyddion? Pwy sydd â’r grym i hawlio cymdeithas fel un seciwlar, ac ar ba sail?
3. Os oes gwahanol fathau o anghrefydd neu seciwlariaeth ar draws gwahanol gymdeithasau, a allai fod yna wahanol ffurfiau o fewn cymdeithasau hefyd? Beth allai arwain rhai pobl i gofleidio un math o anghrefydd dros un arall?

## Cyfeiriadau a darllen pellach

Davie, Grace (2002). *Europe: The exceptional case – parameters of faith in the modern world*. London: Darton, Longman and Todd.

Day, Abby (2013). *Believing in belonging: Belief and social identity in the modern world*. Oxford: Oxford University Press.

Engelke, Matthew (2014). Christianity and the anthropology of secular humanism. *Current Anthropology*, *55*, supplement 10, 292-301.

Guest, Mathew, Olson, Elizabeth, & Wolffe, John (2012). Christianity: Loss of monopoly. In *Religion and Change in Modern Britain* (pp. 57-78). Eds. Linda Woodhead & Rebecca Catto, London: Routledge.

Herbert, David, & Bullock, Josh (2020). Reaching for a new sense of connection: Soft atheism and 'patch and make do' spirituality amongst nonreligious European millennials. *Culture and Religion*, *21*(2), 157-177.

Wilson, Bryan R. (1966). *Religion in secular society. A sociological comment*. Harmondsworth: Penguin.

Woodhead, Linda (2016). The rise of 'no-religion' in Britain: The emergence of a new cultural majority. *Journal of the British Academy*, *4*, 245-61.

*Mae'r Athro Mathew Guest yn gymdeithasegydd crefydd sydd wedi dysgu ym Mhrifysgol Durham ers 2004. Mae ei ymchwil wedi cwmpasu mudiad efengylaidd y DU, teuluoedd clerigwyr, Cristnogaeth ac Islam yng nghyd-destun addysg uwch, a chrefydd mewn diwylliannau neoryddfrydol. Ei lyfr diweddaraf yw* Neoliberal Religion: Faith and Power in the 21st Century *(Bloomsbury 2022), sy'n cynnwys pennod ar 'The secular and non-religious in neoliberal contexts'. Gellir cysylltu ag ef ar* mjguest@durham.ac.uk .

Herio Materion Crefyddol
Rhifyn 20 2023
© Stephen Jacobs

Canolfan y Santes Fair
a Sant Silyn
ISSN 2053-5171

# Ai Rhywbeth a Ddyfeisiwyd yw Hindŵaeth?

Stephen Jacobs

*Mae'r erthygl hon yn ymdrin â sut a phryd y lluniwyd Hindŵaeth fel crefydd bendant y gellid ei chymharu â chrefyddau eraill. Er fod modd, o bosibl, olrhain gwreiddiau Hindŵaeth yn ôl i Wareiddiad Dyffryn Indus (c.2500 CC–1700 CC) ,nid oedd y term 'Hindŵaeth' yn cael ei ddefnyddio yn helaeth tan y 19eg ganrif. Mae'r erthygl yn canolbwyntio ar y cyfarfyddiad rhwng Indiaid ac Ewropeaid yn ystod y cyfnod trefedigaethol, sef y cyd-destun ar gyfer ymddangosiad y syniad o Hindŵaeth fel traddodiad crefyddol cydlynol ac unedig.*

*Cysylltiadau â'r fanyleb*
*AQA: Cydran 2: Astudio Crefydd a Deialogau. 2C Hindŵaeth. Hindŵaeth a her seciwlariaeth: Yn India: cyd-destun y 19eg ganrif a'r cyfarfyddiad â gwerthoedd gorllewinol; cymhariaeth o syniadau arwyddocaol Ram Mohan Roy a Dayananda Saraswati am natur Hindŵaeth*
*EDEXEL: Papur 4, Opsiwn 4C Hindŵaeth: Pwnc 4 Datblygiadau cymdeithasol a hanesyddol gan gynnwys heriau ac ymatebion.4.1(a) Cyd-destun i ddatblygiad modern Hindŵaeth – India yn ddarostyngedig i reolaeth dramor, dylanwadau Cristnogol ac Islamaidd, heriau seciwlariaeth. 4.1 (b) Pwyslais allweddol mewn mudiadau, gan gynnwys Brahmo Samaj, Neo-Vedanta, Ramakrishna Mission, Arya Samaj, mudiad Hindutva. 4.1(c) Ffigurau allweddol yn y datblygiadau hyn, gan gynnwys Mahatma Gandhi, Ram Mohan Roy, Sri Ramakrishna a Dayananda Saraswati. 4.2(b) Safbwyntiau am y dadeni Hindŵaidd a'r cysyniad o 'Hindŵaeth' o gymharu ag ystod o draddodiadau, a Hindŵaeth fel crefydd byd*
*EDUQAS: Cydran 1: Astudiaeth o Grefydd, Opsiwn E: Hindŵaeth. Thema 3 Datblygiadau cymdeithasol a hanesyddol arwyddocaol mewn meddwl crefyddol*
*OCR: Datblygiadau mewn Meddylfryd Hindŵaidd (H573/07) 4 Datblygiadau, Pwnc: Hindŵaeth fel 'Crefydd'*

**Cyflwyniad**

Yn 2005, cyhoeddodd Brian K. Pennington lyfr gyda'r teitl *Was Hinduism Invented?* Mae hwn yn ymddangos yn deitl rhyfedd gan fod nifer o lyfrau a gwefannau sy'n cynnwys y term 'Hindŵaeth' yn eu teitlau, a dysgir Hindŵaeth fel traddodiad crefyddol penodol mewn ysgolion ac Adrannau Astudiaethau Crefyddol mewn prifysgolion ar draws y byd. Ymhellach, mae tua 1 biliwn o Hindŵiaid ledled y byd a byddai'r rhan fwyaf ohonynt yn cydnabod eu bod yn perthyn i grefydd o'r enw Hindŵaeth. Er mwyn deall pam mae Pennington yn gofyn y cwestiwn hwn bydd yn rhaid i ni edrych ar ystod o

faterion, megis: tarddiad y term 'Hindŵaeth', y cyfarfyddiad rhwng Indiaid a'r cyfnod trefedigaethol Prydeinig ac amrywiaeth gyfoethog y traddodiadau Hindŵaidd.

**Beth sydd mewn term?**
Mae dau air sy'n achosi problem: 'crefydd' a'r term 'Hindŵaeth' ei hun. Nid oes unrhyw air yn yr un o'r ieithoedd Indiaidd sy'n gyfystyr â'r gair Cymraeg 'crefydd'. O ganlyniad, gallai diffinio Hindŵaeth fel crefydd olygu camddehongli credoau ac arferion Hindŵiaid. Nid yw'n anghyffredin clywed Hindŵiaid yn honni 'Nid crefydd yw Hindŵaeth, ond ffordd o fyw'. Efallai mai'r term Sansgrit *dharma* sydd â'r ystyr agosaf at y cysyniad o grefydd. Fodd bynnag, nid yw crefydd yn dihysbyddu holl gynodiadau'r term hwnnw. Gall *Dharma* mewn gwahanol gyd-destunau ddynodi cyfraith, dyletswydd, gwirionedd a moesoldeb, yn ogystal â chrefydd.

Mae'r term 'Hindŵ' yn tarddu o'r gair Indo-Iranaidd *sindhu* sy'n golygu afon. O tua 500 CC defnyddiwyd y term 'Hindu' gan y Persiaid fel dynodiad daearyddol ar gyfer y tir a'r bobl i'r de-ddwyrain o afon Indus sy'n llifo trwy ogledd-orllewin is-gyfandir India, yn bennaf drwy Bacistan heddiw. Ni chafodd 'Hindŵ', hyd y gwyddom, ei ddefnyddio gan bobl India i'w dynodi eu hunain tan lawer yn ddiweddarach. Mae Audrey Trushke yn nodi bod yna rai meddylwyr o tua dechrau'r 15fed ganrif yn 'siarad am "hindus" mewn ystyr grefyddol' (Trushke, t.8). Fodd bynnag, ni chafwyd cydnabyddiaeth o grefydd benodol o'r enw Hindŵaeth tan ddiwedd y 18fed ganrif.

Mae llawer o Hindŵiaid yn olrhain gwreiddiau Hindŵaeth i'r cyfnod Vedaidd (c.1500 CC–500 CC) ac o bosibl i Wareiddiad cynharach Dyffryn Indus (c.2500 CC–1700 CC) . Fodd bynnag, ni ddefnyddiwyd y term 'Hindŵaeth' yn gyffredin tan y 19eg ganrif. Priodolir y defnydd cyntaf o'r term 'Hindŵaeth' i ddynodi crefydd fel arfer i'r cenhadwr Cristnogol Charles Grant (1746–1823) mewn llythyr a ysgrifennodd yn 1786. Er iddo sillafu'r term 'Hindooism, awgrymir, oherwydd mai Ewropeaid oedd y cyntaf i ddefnyddio'r term 'Hindŵaeth' i ddynodi un traddodiad crefyddol, fod Hindŵaeth rywsut yn derm a fathwyd gan bobl o'r tu allan. Fodd bynnag, yn fuan daeth yn ddynodiad a dderbyniwyd gan lawer o Hindŵiaid eu hunain. Cytunir yn gyffredinol mai'r diwygiwr Bengalaidd, Raja Rammohun Roy (1772–1833) oedd yr Indiaid cyntaf i ddefnyddio'r term 'Hindŵaeth' i ddynodi crefydd unedig.

**Y cyd-destun trefedigaethol**
Creodd dyfodiad Ewropeaid i India yr hyn y mae Wilhelm Halbfass (1988) wedi'i alw'n 'sefyllfa hermeneutig' newydd. Mae Halbfass yn dadlau bod presenoldeb Ewropeaidd yn India wedi creu cyd-destun cwbl newydd 'lle'r oedd India ac Ewrop, y traddodiadol a'r cyfoes, hunan-ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r llall wedi'u cysylltu â'i gilydd mewn ffyrdd newydd a rhyfedd' (Halbfass, 1988, t. 203). Nodweddwyd y sefyllfa hermeniwtaidd newydd hon gan sawl trafodaeth ryngweithiol a dadleuol a oedd i gyd yn awgrymu bod y term 'Hindŵaeth' yn dynodi traddodiad crefyddol cydlynol y gellid ei gyferbynnu â chrefyddau eraill.

***Cenhadon, ysgolheigion a rhamantwyr***
Credai llawer o genhadon Cristnogol fod yn rhaid iddynt ddeall crefydd India i gael unrhyw obaith o ddod â neges Crist i'r boblogaeth leol. Roedd rhai cenhadon Cristnogol hefyd yn poeni am sut roedden nhw'n darlunio eu canfyddiad o grefydd India i gynulleidfaoedd yn ôl ym Mhrydain. Er enghraifft, cyhoeddodd William Ward, cenhadwr y Bedyddwyr,

adroddiad dwy gyfrol yn 1815 o'r enw *A View of the history, literature and mythology of the Hindoos.* Roedd Ward a llawer o genhadon eraill yn India yn diystyru Hindŵaeth fel ofergoeliaeth yn unig ac awgrymodd ei bod yn anobeithiol o amldduwiol ac eilunaddolgar, ac felly ei bod yn ei hanfod yn israddol i Gristnogaeth.

Mae'r gwerthusiad cenhadol Cristnogol o'r traddodiadau Hindŵaidd yn ffurf ar yr hyn y mae'r ysgolhaig Palesteinaidd Edward Said yn ei alw'n 'Orientaliaeth'. Mae Said yn dadlau bod Orientalaeth yn drafodaeth sy'n rhannu'r byd yn ddwy ran anghyfartal – y Dwyrain neu'r 'Orient' a'r Gorllewin. Dywed Said mai 'Dwyreiniaeth yw'r ddisgyblaeth a ddefnyddiwyd (ac a ddefnyddir) i ymdrin â'r Dwyrain yn systematig, fel pwnc darganfod, dysgu ac ymarfer' (Said, 1991, t. 73).

Er bod y disgwrs cenhadol yn tueddu i ddilorni credoau ac arferion Hindŵaidd, roedd y cyfnod trefedigaethol hefyd yn gyd-destun ar gyfer diddordeb academaidd cynyddol mewn Hindŵaeth. Er enghraifft, sefydlodd William Jones, a oedd yn farnwr i Oruchaf Lys India, Gymdeithas Asiatig Bengal ym 1784 fel fforwm ar gyfer ymchwil ysgolheigaidd ar ddiwylliant, crefydd, hanes a daearyddiaeth India. Er bod Jones yn awgrymu bod y diwylliant wedi dirywio, 'mewn rhyw oes gynnar [yr oedd Hindwiaid] yn wych o ran celfyddyd ac arfau, yn hapus mewn llywodraeth, yn ddoeth mewn deddfwriaeth, ac yn amlwg o ran gwybodaeth amrywiol' (Jones, 1786, dyfynnwyd yn Marshall, 2008, t. 251).

Canfu Ewropeaid eraill, oedd wedi'u dadrithio gan Gristnogaeth a gwyddoniaeth, Hindŵaeth fel ffynhonnell ddoethineb esoterig. Roedd yna nifer o grwpiau ac unigolion o ddiwedd y 18fed ganrif ymlaen y gellir dweud eu bod yn ceisio gwirionedd ysbrydol yn India y teimlent oedd wedi mynd ar goll yn niwylliant Ewrop. Gellir galw'r gwerthusiad hwn o Hindŵaeth yn 'Orientaliaeth Ramantaidd'. Roedd y ceiswyr hyn yn 'gosod ar India fodolaeth ddynol wedi'i gwireddu'n llawnach a diwylliant mwy cyfannol yn cael ei yrru gan yr ysbrydol' (Clarke, 1997, t. 60).

Un o'r enghreifftiau mwyaf arwyddocaol o Orientaliaeth Ramantaidd oedd Theosoffi. Roedd llawer o Theosoffyddion yn credu mai Hindŵaeth oedd yr amlygiad hynaf oedd wedi goroesi o ddoethineb bythol, oedd yn ffynhonnell i bob crefydd. Oherwydd bod gan y Theosoffyddion olwg gadarnhaol ar draddodiadau Indiaidd, roedd yn ysgogi rhai Indiaid i ail-werthuso eu crefydd. Ysbrydolodd llyfr Madam Blavatsky, *Key to Theosophy*, Mohandas (Mahatma) Gandhi ifanc 'i ddarllen llyfrau ar Hindŵaeth, a gafodd wared ar y syniad bod Hindŵaeth yn rhemp gan ofergoeliaeth' (Gandhi, 1982, t. 77).

### *Diwygwyr a thraddodiadwyr*

Tua'r un pryd gallwn nodi dwy arddull o drafodaethau Indiaidd, y diwygiadol a'r traddodiadwr, a gynigiai hefyd mai crefydd yw Hindŵaeth. Raja Rammohun Roy sy'n cynrychioli'r disgwrs diwygiadol orau. Ym 1828 sefydlodd Roy y Brahmo Sabha, a newidiodd ei enw yn ddiweddarach i'r Brahmo Samaj: 'i addoli a charu'r Bod Tragwyddol Anchwiliadwy a Digyfnewid sy'n Awdur a Chadwraeth y Bydysawd' (Sastri, 1974, t. 552). Er bod cynnwys gwasanaeth Brahma Samaj wedi'i dynnu o'r traddodiadau Hindŵaidd, er enghraifft llafarganu o'r Vedas, roedd yr arddull yn debyg iawn i addoliad cynulleidfaol Cristnogol.

Roedd agenda Roy yn ddeublyg. Yn gyntaf, deffro Hindŵiaid o'r hyn y mae'n ei alw'n 'eu breuddwyd wallus' (Roy, 1901, t. 5). Ail agwedd ei agenda oedd gwrthwynebu'r feirniadaeth ar Hindŵaeth

gan genhadon Cristnogol. Roedd dadl Roy yn canolbwyntio ar y camganfyddiad bod Hindŵaeth yn amldduwiaeth ac yn golygu eilunaddoliaeth. Roedd yn awgrymu fod y lluosogrwydd duwiau y cyfeirir atynt yn y gweithiau Hindŵaidd hynafol a elwir y Vedas yn alegorïaidd a daeth i'r casgliad bod Hindŵaeth mewn gwirionedd yn undduwiol. Fodd bynnag, roedd dehongliad llythrennol y Vedas wedi arwain at y gred 'ym modolaeth go iawn duwiau a duwiesau dirifedi', a oedd yn ei dro yn golygu arfer 'defodau niweidiol' ac yn y pen draw yn 'dinistrio gwead cymdeithas' (Roy, 1901, t. 5). Nid oedd Roy ar ei ben ei hun ac fe'i ystyrir yn aml yn rhagflaenydd yr hyn y cyfeirir ato weithiau fel y Dadeni Hindŵaidd yn ddiweddarach yn y 19eg ganrif. Nodweddwyd y Dadeni Hindŵaidd gan amrywiaeth o unigolion a grwpiau a oedd yn cymryd rhan yn yr hyn y mae Agenhananda Bharati yn ei nodi fel 'ailddiffiniad brwdfrydig o grefydd' (Bharati, 1970, t. 268).

Ychydig o effaith a gafodd cynnig Roy bod Hindŵaeth wedi dirywio o'i tharddiad Vedic monotheistig, tra'n apelio i ryw raddau at y deallusion Bengalaidd, ar y rhan fwyaf o Hindŵiaid. Ymhellach, cafwyd gwrthwynebiad i benderfyniad Roy i wrthod defnyddio delweddau. Roedd nifer o unigolion a grwpiau, y gellid eu galw'n 'draddodiadol', yn dadlau bod delweddau yn rhan annatod o fywyd crefyddol Hindŵiaid. Er enghraifft, ceisiodd y Dharma Sabha (Y Gymdeithas Grefydd), a sefydlwyd ym 1830, hyrwyddo 'undod a hunaniaeth Hindŵaidd' (Pennington, 2005, t. 143). Tra bod y Dharma Sabha yn gwrthwynebu'n chwyrn y gwaradwydd gan Gristion o arferion crefyddol Hindŵaidd a dehongliad Roy o draddodiad, roedd yn rhannu gyda'r ddwy drafodaeth hyn y syniad bod yna grefydd unedig y gellid ei galw'n Hindŵaeth.

**Amrywiaeth**

Un o'r problemau mawr wrth geisio diffinio Hindŵaeth yw ei bod yn hynod amrywiol. Mae Robert Frykenberg, er enghraifft, yn dadlau, 'Ni fu erioed y fath beth ag un "Hindŵaeth" nac unrhyw un "gymuned Hindŵaidd"' (Frykenberg, 2001, t. 82). Y rheswm pam mae sylwebwyr fel Frykenberg yn awgrymu nad oes traddodiad crefyddol unedig y gellir ei alw'n Hindŵaeth yw nad oes un pwynt cyfeirio sy'n cael ei dderbyn yn gyffredinol gan bob Hindŵ. Nid oes gan Hindŵaeth un sylfaenydd unigol, dim canon o destunau, dim datganiad o gred, dim diwinyddiaeth gytûn, nac unrhyw gorff sefydliadol trosfwaol. Rhennir syniadau ac arferion crefyddol Hindŵaidd yn ôl cast, rhanbarth a llinach.

Yn Nheml Shri Swaminarayan yng Ngogledd Llundain mae arddangosfa o'r enw 'What is Hinduism'. Mae'r arddangosfa hon yn cydnabod bod 'Hindŵaeth, mewn gwirionedd, yn "deulu" o lawer o draddodiadau amrywiol, neu sampradayas, pob un â'i ddiwinyddiaeth, ei hathroniaeth, ei defodau, ei chod arferion, a'i system werthoedd unigryw ei hun'. Serch hynny, mae'n awgrymu, er ei fod yn amrywiol iawn, bod 'rhai elfennau cyffredin' megis derbyn 'awdurdod y Vedas' (BAPS Swaminarayan Sanstha, 2023).

Gellir herio'r syniad bod pob Hindŵ yn derbyn awdurdod y Vedas. Cyfansoddiadau llafar oedd y Vedas yn wreiddiol, ac felly mae'n anodd iawn eu dyddio, ond mae'n debyg eu bod wedi'u cyfansoddi rhwng 1500 CC a 1000 CC, er bod rhai yn dyddio'r cyfansoddiadau hyn yn llawer cynharach. Roedd tua 1,000 o flynyddoedd cyn i'r cyfansoddiadau llafar hyn gael eu hysgrifennu, ac mae cyfnod arwyddocaol rhwng rhannau cynharaf a rhannau diweddarach y

casgliad helaeth hwn. O ganlyniad, mae'r Vedas yn hynod amrywiol, ac mae ystyr y cyfansoddiadau hyn yn aml yn aneglur iawn. Maent hefyd wedi'u cyfansoddi yn Sansgrit, iaith nad yw'n cael ei siarad mwyach, er eu bod yn sail i ieithoedd gogledd India. Er bod y rhan fwyaf o Hindŵiaid yn ymwybodol o'r Vedas, ychydig iawn o wybodaeth sydd gan lawer am eu cynnwys. Ymhellach, mae testunau eraill fel yr arwrgerdd y *Ramāyāna*, yn fwy adnabyddus.

**Casgliad**

Trwy enwi rhywbeth, nid yn unig yr ydych yn adnabod y peth hwnnw, ond rydych hefyd yn ei greu. Nid yw categorïau yn bodoli'n syml fel rhyw fath o realiti gwrthrychol sy'n cael eu huno gan ryw elfen hanfodol sy'n gwahaniaethu categori penodol o bethau oddi wrth bob categori arall o bethau. Crëir categorïau trwy ddisgyrsiau. Mae'r syniad bod crefydd yn gategori arbennig o weithgaredd dynol, a bod y cysyniadau Hindŵaeth, Cristnogaeth, Islam ac yn y blaen yn draddodiadau crefyddol wedi'u diffinio'n glir, mewn rhyw ystyr yn strwythurau diwylliannol. O ganlyniad, dadleuwyd bod y syniad o Hindŵaeth wedi'i ddyfeisio trwy drafodaethau dwyreiniol y cenhadon, ysgolheigion a rhamantwyr yn ystod y cyfnod trefedigaethol.

Fodd bynnag, mae awgrymu mai gwneuthuriad o ddisgyrsiau dwyreiniol yn unig yw Hindŵaeth yn golygu gwadu rhan Hindwiaid ynddo. Yr amgylchfyd trefedigaethol a'r rhyngweithio rhwng Ewropeaid ac Indiaid a greodd yr amodau a wnaeth i'r syniad o Hindŵaeth fel crefydd, ymddangos. Mae llawer o'r agweddau amrywiol ar yr hyn a elwir yn awr yn Hindŵaeth wedi bodoli ers canrifoedd, os nad milenia, er bod rhai nodweddion yn llawer mwy diweddar. Er nad oes nodwedd hanfodol a diffiniol sy'n uno'r holl Hindŵiaid, cytunaf â Wendy Doniger mai'r ffordd orau o ddeall Hindŵaeth yw fel rhyw fath o ddiagram Venn, sef 'set o gylchoedd croestoriadol o gysyniadau a chredoau' (Doniger, 1991, t. 36).

## Geirfa

*Brahmo Samaj*: Fe'i gelwid yn wreiddiol yn Brahmo Sabha, ac fe'i sefydlwyd gan Raja Rammohun Roy ym 1828. Y bwriad oedd darparu math o addoliad a oedd yn bendant yn Hindŵaidd ond a oedd yn gyson ag athroniaeth undduwiol Roy a'i wrthwynebiad i'r defnydd o ddelweddau. Ym 1858 rhannodd yn ddau grŵp. Er na wnaeth erioed ddenu llawer o aelodau, roedd y Brahmo Samaj yn ddylanwadol iawn.

*Dharma*: Term Sansgrit sy'n tarddu o'r gwreiddyn *dhṛ* sy'n golygu cefnogi neu gynnal. Mae'r cysyniad o *dharma* yn dynodi trefn yn hytrach nag *adharma* sy'n awgrymu anhrefn. Mae gan y term lawer o ystyron gan gynnwys cyfraith, dyletswydd, moesoldeb a chrefydd.

*Dadeni Hindŵaidd*: Rhwng y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif portreadodd nifer o grwpiau ac unigolion y traddodiadau Hindŵaidd

mewn ffyrdd newydd. Yn benodol, cynigiodd diwygwyr, fel Rammohun Roy, fod y traddodiadau Hindŵaidd wedi dirywio o'u gwreiddiau Vedic gwreiddiol, a cheisiodd ailddehongli'r Vedas. Mae termau eraill, megis Neo-Hindŵaeth, adfywiad Hindŵaidd neu foderniaeth Hindŵaidd, hefyd wedi'u defnyddio i ddisgrifio ethos y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae'r unigolion a'r grwpiau sy'n gysylltiedig â'r cyfnod hwn yn amrywiol iawn. Dadleuir hefyd fod y mudiad diwylliannol yn Ewrop rhwng y 15fed a'r 16eg ganrif a elwir y Dadeni yn derm priodol i ddisgrifio'r newidiadau crefyddol yn India yn y 19eg a dechrau'r 20fed ganrif.

*Eilunaddoliaeth*: addoli delwau. Defnyddir y term hwn yn aml mewn ffordd ddirmygus i awgrymu arferion crefyddol ofergoelus ac afresymegol ac fe'i cysylltir yn aml ag amldduwiaeth.

*Gwareiddiad Dyffryn Indus*: Y diwylliant yng ngogledd-orllewin is-gyfandir India, sy'n bennaf yn rhan o Bacistan heddiw, a oedd yn ffynnu rhwng 2500CC a 1700CC. Mae rhai o'r gwrthrychau a ddarganfuwyd yn y safleoedd archeolegol wedi'u dehongli fel rhai sy'n dynodi bod gwreiddiau Hindŵaeth yn gorwedd yng Ngwareiddiad Dyffryn Indus.

*Orientaliaeth*: damcaniaeth a gynigiwyd gan yr ysgolhaig Palesteinaidd Edward Said. Ystod o drafodaethau gwerthusol sy'n darlunio diwylliannau nad ydynt yn Ewropeaidd fel rhai estron ac egsotig.

*Ramāyāṇa*: arwrgerdd sy'n adrodd hanes sut yr achubodd Rāma, ymgnawdoliad o'r duwdod Viṣṇu, ei wraig Sītā ar ôl iddi gael ei herwgipio gan y cythraul â deg pen, Rāvaṇa. Un o naratifau chwedlonol mwyaf poblogaidd y traddodiadau Hindŵaidd.

*Sansgrit*: Iaith Indo-Ewropeaidd. Mae llawer o destunau Hindŵaidd wedi'u cyfansoddi yn Sansgrit. Er nad yw bellach yn cael ei siarad na'i deall yn eang, mae'n sail i ieithoedd gogledd India fel Hindi. Mae rhai termau crefyddol a ddefnyddir yn gyffredin fel 'guru' a 'karma' yn Sansgrit.

*Saṃpradāya*: traddodiad a drosglwyddwyd gan sylfaenydd gwreiddiol trwy linach o olynwyr ysbrydol.

*Cymdeithas Theosoffolegol*: sefydlwyd ym 1875 gan Madam Blavatsky a'r Cyrnol Olcott, a symudodd y pencadlys i India ym 1877. Mae Theosoffi yn gyfuniad o ocwltiaeth a chrefyddau Indiaidd. Bu'r Gymdeithas Theosoffolegol yn hynod bwysig wrth boblogeiddio syniadau Hindŵaidd a Bwdhaidd yn y Gorllewin ar ddiwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif.

*Vedas*: corff helaeth o gyfansoddiadau yn Sansgrit a gyfansoddwyd yn ôl pob tebyg rhwng 1500 CC a 1000 CC. Er mai ychydig iawn y mae'r rhan fwyaf o Hindŵiaid yn ei wybod am gynnwys y Vedas, fe'u hystyrir yn aml yn destunau sylfaenol.

## Cysylltiadau rhyngrwyd

https://londonmandir.baps.org/the-mandir/exhibition-understanding-hinduism (Canllaw i'r arddangosfa *Understanding Hinduism* yn y Shri Swaminarayan Mandir yn Llundain)

https://www.bl.uk/sacred-texts/themes/hinduism (Mae gan wefan y Llyfrgell Brydeinig hon erthyglau defnyddiol iawn ar Hindŵaeth gan ysgolheigion enwog)

https://www.asiaticsocietykolkata.org (Sefydlwyd Cymdeithas Asiatig Bengal gan William Jones yn 1784. Mae gan y wefan hon fideo diddorol ar ddyddiau cynnar y Gymdeithas *Where History Never Sleeps* yn ogystal â bywgraffiad byr o Jones)

https://www.thebrahmosamaj.net/history/history.html (Y Brahmo Samaj oedd y Sefydliad Diwygio Hindŵaidd a sefydlwyd gan Rammohun Roy. Mae gan y wefan hon hanes defnyddiol y Brahmo Samaj a bywgraffiad byr o Rammohun Roy)

## Pwyntiau trafod

1. Ym mha ffyrdd y gellid ystyried Hindŵaeth yn draddodiad crefyddol hynafol a chymharol ddiweddar?
2. Ai camgymeriad yw ystyried Hindŵaeth yn grefydd unedig a phenodol?
3. Beth yw ystyr 'y Dadeni Hindŵaidd' a pham y gallai hwn fod yn gysyniad dadleuol?
4. Ai gwneuthuriad o ddisgyrsiau trefedigaethol yn unig yw Hindŵaeth?

## Cyfeiriadau a darllen pellach


BAPS Swaminarayan Sanstha. (2023). *What is Hinduism?* Ar gael yn: https://londonmandir.baps.org/what-is-hinduism. Cyrchwyd 13 Ebrill 2023.

Bharati, A. (1970). The Hindu Renaissance and its apologetic patterns. *The Journal of Asian Studies, 29*(2), 267–287.

Clarke, J.J. (1997). *Oriental enlightenment: The encounter between Asian and Western thought.* London: Routledge.

Doniger, W. (1991). Hinduism by any other name. *The Wilson Quarterly, 15*(3), 35–41.

Frykenberg, R.E. (2001). The emergence of modern 'Hinduism' as a concept and as an institution. Yn *Hinduism reconsidered* (tt. 82–107). Eds. G. Sontheimer & H. Kulke, Delhi: Manohar.

Gandhi, M.K. (1982). *An autobiography: The story of my experiments with the truth.* London: Penguin.

Halbfass, W. (1988). *India and Europe: An essay in understanding.* Albany: State University of New York Press.

Jones, W. (2008). On the Hindus. In *The British discovery of Hinduism in the 18th century* (pp. 246–261). Ed. P.J. Marshall, Cambridge: Cambridge University Press.

Pennington, B.K. (2005). *Was Hinduism invented? Britons, Indians and the colonial construction of religion.* Oxford: Oxford University Press.

Roy, R.(1901). An abridgement of the Vedant. Yn *The English works of Raja Rammohun Roy* (pp. 1–17). Ed. J.C. Ghose, Allahabad: Panini Office. Ar gael yn: https://indianculture.gov.in/rarebooks/english-works-raja-rammohun-roy.

Said, E. (1991). *Orientalism.* London: Penguin.

Sastri, S. (1974). *History of the Brahmo Samaj.* Calcutta: Brahmo Mission Press.

Trushke, A. (2023). Hindu: A history. *Comparative Studies in Society and History, 65*(2) 1–26, doi:10.1017/S0010417522000524.


*Mae Dr Stephen Jacobs yn Gymrawd Ymchwil mewn Crefydd a Diwylliant ym Mhrifysgol Wolverhampton. Ef yw awdur* Hinduism Today *(Continuum,* 2010 *) a* The art of living foundation: Spirituality and wellbeing in the global context *(Ashgate,* 2015*).*

Herio Materion Crefyddol
Rhifyn 20 2023
© Phra Nicholas Thanissaro

Canolfan y Santes Fair
a Sant Silyn
ISSN 2053-5171

# A ddylai Bwdhyddion gefnu ar ddefodau a seremonïau?

Phra Nicholas Thanissaro

*Er bod defodau a seremonïau ym ymddangos yn rhywbeth cyffredin mewn Bwdhaeth draddodiadol, mae peth amwysedd ynghylch a oedd seremonïau yn hanesyddol yn cael eu hannog neu'n rhywbeth y dylid cefnu arnynt, yn enwedig pan restrir 'cadw at ddefodau a seremonïau' ymhlith y llyffetheiriau sy'n dal ymarferydd yn ôl rhag yr oleuedigaeth. Mae'r ddadl hon wedi dod i'r amlwg eto mewn Bwdhaeth Orllewinol heddiw lle mae'r rhai y mae Protestaniaeth wedi dylanwadu arnynt yn tueddu i ddad-flaenoriaethu seremoni o blaid myfyrdod. Mae'r erthygl hon yn archwilio agweddau posibl at seremoni a all gysoni dwy ochr y ddadl.*

*Cysylltiadau â'r fanyleb*
*AQA 7062 2A Bwdhaeth: Mynegiadau o Hunaniaeth Fwdhaidd: Defosiwn a'i ddibenion: gweithredoedd defosiwn ym Mwdhaeth Theravada a Mahayana; y gwahanol safbwyntiau am arwyddocâd addoli*
*OCR Datblygiadau mewn meddwl Bwdhaidd (H573/06): mewnoli Bwdhaeth i ddiwylliannau gorllewinol, Bwdhaeth Seciwlar Stephen Batchelor*
*Hefyd:*
*EDUQAS Cydran 1: Astudiaeth o Grefydd: Opsiwn D: Astudiaeth o Fwdhaeth, Thema 4: Arferion crefyddol sy'n llywio hunaniaeth grefyddol*
*SCOTTISH HIGHERS Cydran 2 : papur cwestiwn 2 Adran 1. Rhan A. Bwdhaeth, Arferion (y berthynas rhwng credoau ac arferion), Defosiwn*

Pe baech chi'n mynd i unrhyw le yn y byd ac yn ymweld â theml Fwdhaidd (yn hytrach na chanolfan fyfyrio), byddech chi'n darganfod bod realiti bywyd Bwdhaidd yn tueddu i ymwneud yn amlwg â llafarganu, defodau a seremonïau, confensiynau diwylliannol, llwon ac addunedau. Dim ond nifer yr argymhellion a ddilynir gan fynachod a lleianod sy'n uwch na'r rhai a ddilynir gan Fwdhyddion lleyg. Tywalltir dŵr i gysegru rhinweddau i'r ymadawedig. Mae Bwdhyddion Mahāyāna yn cymryd addunedau Bodhisattva i'w helpu i anelu at Fwdhyddiaeth ac iachawdwriaeth pob bod ymdeimladol. Mae meddylwyr ymroddedig yn addo peidio â chysgu ar orwedd, tra bod Bwdhyddion eraill yn lledorwedd ar hyd llwybrau pererindod. Mae rhai Bwdhyddion yn ymrwymo i fod yn llysieuwyr. Mae Bwdhyddion Tibetaidd yn credu y gellir cael argoelion da drwy nyddu olwynion gweddi neu chwifio baneri gweddi. Ceir toreth o swynoglau a chreiriau Bwdhaidd sy'n amheus o debyg i 'faddeuebau' yr eglwys gyn-Lwtheraidd.

Gyda seremonïau mor amlwg, byddai'n syndod felly i ddysgu ei bod yn

ymddangos nad yw defodau a seremonïau yn cael eu hannog yn haenau uwch arfer Bwdhaidd. Byddai darlleniad llythrennol o gynnwys 'glynu at ddefodau a seremonïau' [*sīlabbata-parāmāsa*] fel un o'r halogiadau meddyliol cynnil y mae angen eu goresgyn er mwyn cyrraedd camau'r deffroad, yn golygu bod Bwdhyddion yn gorfod rhoi'r gorau i ddefodau a seremonïau crefyddol os ydynt am ddod yn oleuedig. Wrth gwrs, gellid deall rhai arferion mewn Bwdhaeth fel modd o gyflawni diben neu 'foddion medrus' a gynlluniwyd i gael eu gollwng unwaith y byddant wedi cyflawni eu pwrpas – fel y dangosir gan gyffelybiaeth y rafft.[1] A yw'n wir felly bod angen trin argymhellion ac addunedau,[2] disgyblaethau, arferion, moeseg neu ideoleg,[3] defodau a seremonïau[4] fel rhwystr i ymarfer gwirioneddol?

## Beth yw'r broblem gyda chadw at ddefodau a seremonïau?

Mae tarddiad y term *sīlabbata-parāmāsa* yn deillio o *sila* , sy'n golygu 'rhinwedd, moesoldeb neu gonfensiwn' (yn yr ystyr o hepgor yn fwriadol pethau afiach o'ch ymddygiad). Mae *(B)bata* yn cyfeirio at lwon neu ymrwymiadau (yn yr ystyr o gynnwys pethau llesol yn eich ymddygiad yn fwriadol). Mae'r term *parāmāsa* yn golygu 'mewn ffordd a orfodir yn allanol'. Caiff disgyblaeth a osodir yn allanol ei chymharu yn aml â cheisio dal pêl o dan y dŵr. Felly, gyda'i gilydd byddai *sīlabbata-parāmāsa* yn cyfeirio at ymlyniad at ddefodau neu seremonïau sy'n 'orfodaeth allanol'. Mae ymlynu fel hyn yn cael ei osgoi oherwydd y ffordd y mae'n arwain at lymder, dogmatiaeth, gwrthwynebiad i newid a'r gred y gellir cael cyraeddiadau dim ond trwy ymgymryd â defodau neu lwon. Pe ceisiwyd tebygrwydd â seicoleg Freudaidd, gellid ei gymharu â chymhleth sy'n cynnwys yr *uwch-ego* (Pwnaji, 2013, t. 42) .

Mae ymlyniad wrth ddefodau a seremonïau i'w ganfod yn fwyaf cyffredin fel un o'r Deg Llyffethair [*samyojana*].[5] Ystyrir ei fod yn broblematig ar yr un lefel â 'safbwynt twyllodrus am yr hunan' ac 'amheuaeth'. Ar wahân i fod yn un o'r deg llyffethair, mae hefyd wedi'i gynnwys fel un o'r pedwar math o ymlyniad [*upādāna*] – ochr yn ochr â glynu wrth wrthrychau cnawdol [*kāmupādāna*], glynu wrth safbwyntiau [*diṭṭhupādāna*] a glynu wrth hunan-gred [*attavādupād*].[6]

## Gwrthwynebiadau hanesyddol i ddefodau a seremonïau

I roi rhywfaint o gyd-destun hanesyddol, yn gyfoes â'r Bwdha roedd llawer o grefyddau'n cystadlu yn erbyn ei gilydd a oedd yn dysgu mai defodau a seremonïau er anrhydedd i'r duwiau oedd yr unig ffordd i sicrhau newid yn y byd – boed yn gynhaeaf toreithiog, rhyddid rhag afiechyd neu eni plentyn iach. Ystyrid defodau a seremonïau yn ddigonol ar gyfer deffroad neu iachawdwriaeth. Gwrthododd y Bwdha y farn hon yn gadarn, oherwydd dysgodd ef fod pethau'n digwydd oherwydd deddfau naturiol, nid oherwydd deisyfiadau i'r duwiau. Defnyddir y Kukkuravatika Sutta[7] yn aml i ddarlunio peryglon ymlyniad dall wrth lwon neu ddefodau, gan adrodd achos asgetigion a oedd yn dynwared cŵn neu ychen yn ufudd fel rhan o'u hymarfer ysbrydol. Byddent yn bwyta dim

[1] Mi130 [gweler Confensiynau ar gyfer Dyfynnu Testunau Cynradd Bwdhaidd Cynnar, ar ddiwedd yr erthygl hon].
[2] Cyfieithiad o sīlabbata-parāmāsa gan Gethin, 1998, Harvey, 2007, Thanissaro, 2014.
[3] Cyfieithiad o sīlabbata-parāmāsa gan Mipham, 2004, Chodron, 2018, Jinpa, 2020, Guenther, 1975.
[4] Cyfieithiad o sīlabbata-parāmāsa gan Bodhi, 2000, Walshe, 1995, Nyanatiloka, 1970.
[5] Sv61, Av13, Vbh.377.
[6] D.iii.230, Mi66, Vbh.375.
[7] Mi387.

ond bwyd oedd yn cael ei daflu ar y ddaear, ddim yn gwisgo dillad ac yn mynd o gwmpas ar eu pedwar – ac yn credu y byddai arferion o'r fath yn arwain at eu hiachawdwriaeth.

Mae'r rhain yn enghreifftiau eithaf eithafol o 'feddwl hudol' a all ymddangos am y pegwn ag arferion y mwyafrif o Fwdhyddion rhesymol heddiw. O ganlyniad, mae Bwdhyddion modern yn tueddu i feddwl, yn hytrach na chynnwys y defodau a'r seremonïau eu hunain, mai'r broblem dan sylw yw dilyn yn ddall confensiynau a osodwyd yn allanol (Punnaji, 2013, t. 67). Byddai hyn yn cyfeirio at bobl yn credu y gallai bwyta rhai bwydydd ganiatáu iddynt ennill iachawdwriaeth neu ymdrochi'n ddefodol mewn afon gysegredig benodol, ymgynghori â phobl dweud ffortiwn, addoli ysbrydion neu fathau eraill o ofergoeliaeth fod yn noddfa rhag dioddefaint. Mae fel pe bai'n dangos bod deisyf ar rymoedd ysbrydol allanol neu ddibynnu ar unrhyw orfodi disgyblaeth o'r tu allan yn llai dilys na chael eich cymell i wneud daioni neu osgoi drwg gan eich synnwyr boddhad neu'ch cydwybod eich hun. Mae'r rhybudd yn erbyn cadw at ddefodau a seremonïau yn amlygu'r syniad fod disgyblaeth yn israddol o'i gymharu â hunanddisgyblaeth – ac mae'n awgrymu, mewn arfer Bwdhaidd uwch, y dylai ymddygiad da fod wedi'i fewnoli [ariya-sīla], fel y dangosir gan Sāriputta, disgybl llaw dde'r Bwdha, gafodd ganmoliaeth yn yr Anupada Sutta.[8]

## Gwrthwynebiadau cyfoes i ddefodau a seremonïau

Mae'r amwysedd hanesyddol o amgylch defodau a seremonïau Bwdhaidd hyd yn oed yn fwy cymhleth y dyddiau yma, lle maent wedi eu cael eu hunain ar flaen y gad yn 'rhyfeloedd diwylliant' mewnol Bwdhaidd – gyda myfyrdod a defod yn aml ar bennau gwrthgyferbyniol trafodaeth sydd wedi'i pholareiddio ar hyd llinellau treftadaeth-troedigion, traddodiadol-fodernaidd neu ôl-drefedigaethol-ddwyreiniol. Mae Bwdhyddion a gafodd dröedigaeth, Bwdhyddion seciwlar a modernwyr yn honni bod angen i Fwdhyddion dilys gefnu ar ddefodau fel mynegi parch [*pūjā*] neu dalu gwrogaeth [*vandanā*], er bod y rhain yn arferion Bwdhaidd Theravada sylfaenol a hyrwyddir yn yr ysgrythurau Bwdhaidd. Mewn rhyw fath o hanfodaeth ysbrydol, cyfeiriwyd at *sīlabbata-parāmāsa* gan rai gorllewinwyr fel cyfiawnhad dros wrthod traddodiad, gan feddwl y dylai rhyddid oddi wrth ddefodau Bwdhaidd traddodiadol fod yn ffafriol i eglurder a dilysrwydd meddwl – ac yn eu plith mae'r academyddion sy'n gyfrifol am y cyfieithiadau Saesneg o'r term '*sīlabbata-parāmāsa'*. Mae ysgolheigion gorllewinol yn gyson wedi alltudio defodau, seremonïau ac ymrwymiad i barth 'ychwanegiadau diwylliannol', ac mae i Orllewinwyr ymwneud yn naïf â defodau a seremonïau o'r fath yn cael ei ystyried gyda'r un arswyd â 'throi'n frodor'. Dylid cydnabod, er bod dad-drefedigaethu graddol Astudiaethau Bwdhaidd, wedi digwydd dros y ddau ddegawd diwethaf, fod y rhai sy'n diystyru defodau a seremonïau mewn Bwdhaeth wedi dod yn Fwdhyddion seciwlar llai uchel eu cloch fel Joseph Goldstein (2003) a Stephen Batchelor (1997) ac maent yn dylanwadu ar yr hyn a adnabyddir fel 'Bwdhaeth gonsenswS' yn y Gorllewin, lle mae Bwdhaeth wedi dod i gael ei hystyried yn ddim mwy na 'ffordd o fyw'.

Gall yr awydd anghymesur i ddiystyru defodau, seremonïau ac addunedau ddeillio o wreiddiau Protestannaidd llawer o wledydd y Gorllewin lle mae Bwdhaeth

[8] M.iii.28.

wedi dod yn boblogaidd. (Baumann, 1997). Weithiau daw'r ddiystyriaeth yma ar ffurf oddefol Protestaniaeth *gynhenid*, lle mae disgwyliadau Gorllewinwyr sydd wedi cael tröedigaeth i Fwdhaeth yn cael eu heffeithio'n anfwriadol gan eu cefndir crefyddol blaenorol. Weithiau mae'n fwy gweithredol a bwriadol, fel ffurf ar siofinyddiaeth Brotestannaidd, lle mae dysgeidiaeth Fwdhaidd yn cael ei thynnu allan o'r cyd-destun i gyfiawnhau gwrthod defodau. Mae rhagdybiaethau heb eu harchwilio sy'n sail i Brotestaniaeth gynhenid yn trin myfyrdod yn gadarnhaol ac yn fuddiol yn anfeirniadol, tra bod defod ar y gorau yn cael ei hystyried yn wastraff amser ac ar y gwaethaf yn cael ei chondemnio fel rhywbeth sy'n niweidiol i wir arfer.

Serch hynny, dylai fod tir cyffredin i ragdybiaethau Bwdhyddion y Dwyrain a'r Gorllewin. Nid oedd y Bwdha yn darparu'n wahanol ar gyfer y Dwyrain a'r Gorllewin, oherwydd yn y Vāseṭṭha Sutta[9] dysgodd y dylai gwahaniaethau o ran genedigaeth, hil neu genedligrwydd gael eu bwrw i'r cysgod gan ymarfer a dealltwriaeth o'r Dharma. Mae tueddiadau ôl-fodernaidd ac ôl-seciwlaraidd presennol yn y gymdeithas Orllewinol, gydag amrywiaeth o arferion a lefelau cynyddol o dderbyniad i agweddau defodol ar grefydd yn gyhoeddus, yn arwydd efallai o sut y gallai'r cymod hwnnw ddigwydd, wrth symud ymlaen – ac mae'n braf nodi sut mae Bwdhyddion Gorllewinol yn aml bellach yn unioni'r cydbwysedd yn eu hymarfer trwy 'gynllunio' eu defodau eu hunain, er mwyn lleddfu unrhyw euogrwydd y gallent ei deimlo am feddiannu diwylliannol.

## Gan bwyll wrth drafod defodau a seremonïau

I lawer, mae dad-flaenoriaethu seremonïau mewn Bwdhaeth yn gwneud synnwyr oherwydd, wedi'r cyfan, nid oes unrhyw sôn penodol am ddefodau na seremonïau yn elfennau'r Llwybr Wythblyg. A fyddai pwyll ynghylch defodau a seremonïau yn golygu blaenoriaethu'r defodau sydd fwyaf perthnasol i ryddhad rhag ailenedigaeth, neu a yw'r mater yn ymwneud yn fwy â'r ffordd y mae ymarferydd yn 'ymlynu'? Yn sicr, nid yw rhai mathau o ddefodau yn cael cefnogaeth Bwdhyddion, megis ymagweddau rhy drafodaethol at ddefod (Tambiah, 1981) , lle gallai dilynwr fargeinio â Bwdha, gan addo aberth (megis rhodd i'r deml) – yn gyfnewid am ffafr, ond dim ond os bydd y deisyfiad 'yn dod yn wir'. O fewn Bwdhaeth, byddai'n well yn gyffredinol i ddefod anfedrus o'r fath gael ei gwneud yn fedrus trwy wneud y rhodd ymlaen llaw a sianelu rhinwedd y weithred yn ddiamod tuag at y canlyniad a geisir. Mae'n debyg mai hyn, ynghyd â llwon y gelfyddyd ddu, defodau hunanboenydio neu loches mewn pethau heblaw'r Gemau Triphlyg, yw'r unig ddefodau a seremonïau y byddai Bwdhyddion traddodiadol yn ceisio cael gwared arnyn nhw yn llwyr.

I gloi, y ffordd orau o gymryd pwyll tuag at ddefodau a seremonïau yw trwy ddeall yn well y rôl y mae cymhellion, bwriadau a bydolwg yn ei chwarae yn yr arferion seremonïol o barch, gwrogaeth neu benderfyniad, a symud sylw oddi wrth yr argymhelliad neu'r ymarfer ei hun at y rhinweddau meddwl sydd o'u cwmpas. Gall hyd yn oed gweithredoedd 'gwag' arwynebol gael eu trwytho ag ystyr ysbrydol os cânt eu cyflawni gyda'r Bwriad Cywir. Yn yr un modd, gellir deall llawer o ddefodau a seremonïau mewn cyd-destun Bwdhaidd fel y cyfle ffurfiol i ymarfer haelioni, hybu moesoldeb a myfyrio. Felly, mae'n debygol y byddai'r angen i dorri llyffethair *sīlabbata-*

[9] M.ii.196.

*parāmāsa* yn golygu rhoi'r gorau i ddealltwriaeth ystumiedig o'r rôl y mae argymhellion a chonfensiynau yn ei chwarae yn ymarferol, gan nad yw p'un a yw Bwdhydd yn ymatal rhag defod yn unrhyw sicrwydd o ddianc rhag meddwl hudol.

Mae dealltwriaeth o ddefodau a seremonïau o'r fath yn osgoi taflu'r babi (teilwng) allan gyda dŵr y bath, fel y gallai modernwyr ei bleidio. Yn y cyfamser, mae angen i Fwdhyddion gadw mewn cysylltiad â'r amcanion dyfnach sy'n sail i ddefodau a seremonïau mewn ffordd sy'n eu gwneud yn ystyrlon i'r rhyddhad eithaf rhag dioddefaint.

## Geirfa

*Bwdhaeth gonsensws*: canfyddiad prif ffrwd o uniongrededd Bwdhaidd (gan Orllewinwyr fel arfer).

*Bwdhydd troëdig*: y rhai nad ydynt o dras Asiaidd ac nad oes ganddynt dreftadaeth Fwdhaidd.

*dad-drefedigaethu*: cywiro rhagfarnau dwyreiniol yn ysgolheigaidd er mwyn cyflwyno persbectif llai Ewroganolog.

*Dharma*: yn y cyd-destun Bwdhaidd (weithiau wedi'i sillafu *Dhamma*), dysgeidiaeth y Bwdha, yr hyn y mae Bwdhyddion yn ei ystyried yn gywir, yn wir neu'n llesol.

*llyffethair*: halogiad meddwl cynnil yn dal person yn ôl rhag goleuedigaeth.

*treftadaeth Fwdhaidd*: y rhai sydd â chysylltiad ethnig â gwledydd lle mae gan Fwdhaeth bresenoldeb amlwg ac sy'n ymdrechu i gadw a pharhau'r traddodiad Bwdhaidd yn y wlad Orllewinol y maent yn byw ynddi.

*rhinwedd*: canlyniad carmig buddiol gweithred lesol.

*pūjā*: mynegiant defodol o barch.

*sīlabbata-parām ā sa*: ymlyniad wrth ddefodau a seremonïau (ond gweler cyfieithiadau amgen yn ail baragraff yr erthygl hon).

*mynediad-ffrwd*: yr isaf o bedair lefel o ddeffroad a gydnabyddir mewn Bwdhaeth gynnar.

*vandanā*: mynegiant defodol o wrogaeth neu ganmoliaeth.

## Cysylltiadau rhyngrwyd

https://secularbudhism.com (Podlediad wedi'i anelu at bobl nad oes ganddynt ddiddordeb mewn ymarfer Bwdhaeth fel crefydd)

https://secularbuddhistnetwork.org (Rhwydwaith Bwdhaidd Seciwlar Stephen a Martine Batchelor yn y DU)

## Pwyntiau trafod

1. Ai yw hi ddim ond yn berthnasol i boeni am ddefodau a seremonïau i'r rheiny sydd ar drothwy mynediad-ffrwd?
2. A ddylai Bwdhyddion fynd i ddadl am seremonïau gorfodol neu ar eu cof yn unig?
3. Os nad yw Bwdhyddion i fod i berfformio defodau a seremonïau 'fel dal pêl o dan y dŵr', a allwch chi feddwl am drosiad ar gyfer sut y dylid perfformio defodau a seremonïau?

## *Sut i gyfeirio at Destunau Cynradd Bwdhaidd Cynnar*

Fel gyda dyfyniadau o'r Beibl, mae gweithiau academaidd Bwdhaidd sy'n cyfeirio at destunau cynradd fel arfer yn defnyddio cyfeiriadau heb fod yn arddull Harvard. Mae'r talfyriadau y cytunwyd arnynt yn cyfeirio at gyfrolau o fersiwn Tipitaka iaith y PTS Pali. Mae'r rhifau Rhufeinig yn cyfeirio at rifau cyfrol a'r rhifau Arabaidd at y tudalennau yn y fersiwn iaith Pali. Mae'r talfyriadau a ddefnyddir yn yr erthygl hon fel a ganlyn:

A = Anguttara Nikāya
D = Digha Nikāya
M = Majjima Nikāya
S = Samyutta Nikāya
Vbh = Vibhanga

Os oes gennych ddiddordeb, mae rhestr gyflawn o dalfyriadau testunau Bwdhaidd ar gael y https://dsal.uchicago.edu/dictionaries/pali/frontmatter/abbreviations.html.

## Cyfeiriadau a darllen pellach


Batchelor, S. (1997). Buddhism without beliefs: A contemporary guide to awakening. New York: Riverhead Books.

Baumann, M. (1997). Culture contact and valuation: Early German Buddhists and the creation of a 'Buddhism in Protestant Shape'. Numen, 44(3), 270-295.

Bodhi, B. (Ed.) (2000). A comprehensive manual of Abhidhamma. Kandy: Buddhist Publication Society.

Chodron, T. (2018). Saṃsāra, Nirvāṇa, and Buddha Nature, The library of wisdom and compassion, Volume 3. Somerville, Massachusetts: Wisdom Publications.

Gethin, R. (1998). The foundations of Buddhism. Oxford: Oxford University Press.

Goldstein, J. (2003). One Dharma: The emerging Western Buddhism. New York: HarperCollins.

Guenther, H.V. (1975). Mind in Buddhist psychology: Necklace of clear understanding by Yeshe Gyaltsen. Berkeley, California: Dharma Publishing.

Harvey, P. (2007). An introduction to Buddhism: Teachings, history and practices. Cambridge: Cambridge University Press.

Jinpa, T. (Ed.) (2020) Science and philosophy in the Indian Buddhist classics, Vol. 2. Somerville, Massachusetts: Wisdom Publications.

Mipham, J.R. (2004). Gateway to knowledge: A condensation of the Tripitaka Vol. 1. Hong Kong: Rangjung Yeshe Publications.

Nyanatiloka (1970). Buddhist dictionary: Manual of Buddhist terms and doctrines (3rd ed.). Singapore: Singapore Buddhist Meditation Centre.

Punnaji, M.M. (2013). Return to tranquility. Kuala Lumpur: Sasana Abhiwurdhi Wardhana Society.

Tambiah, S.J. (1981). A performative approach to ritual. London: British Academy.

Thanissaro, G.D. (2014). Handful of leaves Vol. II: An anthology from the Majjhima Nikāya. Available online from Handful of Leaves volume two: An Anthology from the Majjhima Nikāya (holybooks.com) Accessed 11 May 2023.

Walshe, M. (1995). The long discourses of the Buddha: A translation of the Dīgha Nikāya. Somerville, Massachusetts: Wisdom Publications.

*Mae Phra Dr Nicholas Thanissaro wedi bod yn fynach Bwdhaidd ers 26 o flynyddoedd. Gyda 37 mlynedd o brofid myfyrio, mae yn athro wedi'i gymhwyso gan Gymdeithas Feddygaeth Amgen y DU. Yn gysylltiedig â Sefydliad Dhammakaya, cymhwysodd hefyd fel athro ysgol ac ymarferydd MBTI. Yn ystod ei gyfnod fel Cymrawd Cysylltiol ym Mhrifysgol Warwick, fel ysgolhaig-ymarferydd, cyhoeddodd yn eang mewn cyfnodolyn a adolygwyd gan gymheiriaid ar ffurfio hunaniaeth Fwdhaidd mewn plant yn eu harddegau ac mae'n parhau i ymchwilio i apêl myfyrio yn y Gorllewin. Ar hyn o bryd mae'n darlithio mewn 'Living Buddhism' a 'Religious Individualisation' yn Ysgol Ddiwinyddiaeth Claremont, Califfornia ac mae'n uwch gymrawd ym Mhrifysgol Bishop Grossteste, Lincoln. Ei lyfr academaidd diweddaraf yw* The Intuitive Buddhist *(Peter Lang, 2020).*

Herio Materion Crefyddol
Rhifyn 20 2023
© Opinderjit Kaur Takhar

Canolfan y Santes Fair
a Sant Silyn
ISSN 2053-5171

# Dirnadaeth Sikhaidd o'r Dwyfol

Opinderjit Kaur Takhar

*Mae'r erthygl hon yn canolbwyntio ar y safbwynt Sikhaidd ar natur a dirnadaeth y Dwyfol. Mae dysgeidiaethau gan y Guru Granth Sahib yn portreadu'r Dwyfol Eithaf fel un di-ryw, di-ffurf sy'n cael ei brofi trwy'r synhwyrau – yn enwedig drwy'r broses o 'weld' y Dwyfol [darśan ]. Caiff profiad y dilynwyr o'r Dwyfol (y cyfeirir ato'n aml fel Waheguru) ei gymharu â'r undod dedwydd â'r Anwylyd. Deellir yr undod hwn fel y mecanwaith y gall y dilynwr ei ddefnyddio i ddyrchafu eu hymwybyddiaeth o'r bydol [manmukh] i'r Dwyfol [gurmukh]. Eglurir y berthynas bersonol hon â'r Dwyfol fel profi yr hanfod hwn oddi mewn, yn hytrach nag edrych am y Dwyfol mewn lleoedd y tu allan i'r corff.*

*Cysylltiadau â'r fanyleb:*
*CBAC/EDUQAS Elfen 1, Opsiwn F Thema Sikhiaeth 4E Dealltwriaeth athronyddol o natur Duw a phrofiad crefyddol a geir yn enwau Duw. Hefyd: Thema 2A a B ar y ddealltwriaeth athronyddol o'r cysyniad Sikhaidd o Dduw a'r Enaid*
*EDEXCEL Papur 4, Opsiwn 4F Sikhiaeth: 1.1 Sikhiaid a'r dwyfol, 1.3 Egwyddorion a gwerthoedd moesol allweddol, 3.2b Natur a phwysigrwydd nam simaran, gan gynnwys arferion myfyrio a'r defnydd o fantras, 5.2 Astudiaeth o'r gwahanol ddulliau o egluro'r Dealltwriaeth Sikhaidd o'r dwyfol – a) gosodiadol a dadansoddol ac unol a chyfannol*
*SCOTTISH HIGHERS Cydran 1: papur cwestiynau 1: Crefydd y Byd Rhan F Sikhiaeth: Credoau am Dduw, Gurmukh; Arferion — simran*

**Defnydd o'r gair 'Sikhi'**

Er mai Sikhiaeth yw'r ieuengaf o brif grefyddau'r byd mae gan Sikhaeth heddiw y pumed dilyniant mwyaf drwy'r byd. Mae llawer o ddadlau ymhlith Sikhiaid a ddylid ychwanegu'r ôl-ddodiad 'ism' yn Saesneg at unrhyw gyfeiriadau at eu ffydd. Yn gyffredinol, mae'n well gan Sikhiaid y term 'Sikhi' sydd, yn eu barn nhw, yn adlewyrchu dysgeidiaeth y Gurus Sikhaidd. Mae Sikhiaid, ar y cyfan, yn gweld eu ffydd fel *ffordd o fyw* yn hytrach na dogma amlwg. Mae llawer hefyd yn gweld yr ôl-ddodiad 'ism' fel dyfais drefedigaethol sy'n pecynnu arferion a thraddodiadau gyda'i gilydd mewn un categori yr un fath. Er mwyn lleihau termau technegol, rwyf wedi defnyddio cyfieithiadau Cymraeg, ond hefyd wedi cynnwys y termau ysgrythurol Sansgrit, Pwnjabeg neu Gurmukhi Rhufeinig

perthnasol, wedi'u hitaleiddio mewn cromfachau sgwâr – gyda'r termau a grybwyllir amlaf wedi'u cynnwys mewn geirfa ar y diwedd.

**Natur fewnol ac ansectyddol y Dwyfol**

Yn ôl traddodiad Sikhaidd, roedd Guru Nanak yn ddeg ar hugain oed pan gafodd brofiad crefyddol a'i goleuodd yn llwyr. Aeth Nanak i ymdrochi yn yr afon, fel y gwnâi bob bore fel arfer, heblaw ei fod y tro hwn wedi diflannu am dri diwrnod. Yn ôl y traddodiad Sikhaidd, aethpwyd ag ef i lys y Dwyfol [*Waheguru*] ac ar ôl ailymddangos ar lan yr afon llefarodd y geiriau canlynol, 'Nid oes Hindŵ. Nid oes Mwslim. Felly llwybr pwy y dilynaf? Dilynaf lwybr *Waheguru,* gan nad yw *Waheguru* yn Hindŵ nac yn Fwslim' (tudalen GGS/Ang 1136, wedi'i ysgrifennu gan y pumed Guru). Mae'r ymadrodd hwn yn dangos bod y Dwyfol yn undod y tu hwnt i bob rhaniad crefyddol a bod y berthynas â'r Dwyfol mewn Sihkiaeth yn un *bersonol* sy'n edrych tuag at i mewn i brofi'r Dwyfol sy'n amlwg o fewn pob un bod dynol. Mae'r berthynas bersonol hon â'r Dwyfol yn ymwneud *â phrofi'r* hanfod hwn oddi mewn, yn hytrach na *chwilio am* y Dwyfol mewn mannau y tu allan i'r corff.

**Disgrifiad Ysgrythurol o'r Dwyfol**

Y Guru Granth Sahib (wedi'i dalfyrru i'r 'GGS') yw'r awdurdod ysgrythurol ar ddysgeidiaethau crefyddol Sikhaidd. Mae'r cysyniad o'r Dwyfol mewn Sikhiaeth yn hollol ddi-ffurf a heb ryw. Yn groes i gredoau Hindŵaidd cyffredin ar y pryd, gwrthododd Guru Nanak a'r Gurus dilynol y cysyniad o ailymgnawdoliad y Dwyfol ar ffurf ddynol neu anifail [*avatars*]. Amlygir y cysyniad o'r Dwyfol yng nghred sylfaenol y ffydd Sikhaidd [*Mool Mantar]* (gweler y tabl) ac fe'i nodir ar ddechrau'r *Adi Granth,* y cyfeiriwyd ato ers 1708 OC fel y GGS.

| | |
|---|---|
| Mae Un a dim ond yr Un, | *IK ONKAAR* |
| Gwirionedd yw'r Enw, | *SATNAM* |
| Y Creawdwr, | *KARTA PURKH* |
| Heb ofn, | *NIR BHAU* |
| Heb gasineb, | *NIR VAIR* |
| Anfarwol, | *AKAL MURAT* |
| Y tu hwnt i enedigaethau a marwolaethau, | *AJUNI* |
| Y Goleuwr, | *SAIBHANG* |
| Adwaenir gan Ras y Guru. | *GURPURSAD* |

Mae'r cysyniad o undod y Dwyfol mewn Sikhiaeth yn un sy'n gweld y byd a phob agwedd faterol ar y greadigaeth yn bodoli ynddo. Mae'r Dwyfol felly yn *bersonol*, ond hefyd yn drosgynnol. Cyfeirir at y Dwyfol yn aml mewn athrawiaethau Sikhaidd fel 'y Priodfab' neu 'yr Anwylyd', gan gryfhau'r agwedd bersonol o *brofi'r* Dwyfol sy'n seiliedig ar gariad [*bhakti*] y Dwyfol trwy'r trosiad a ddefnyddir yn aml o ddiwrnod priodas yn y GGS. Nid yw 'gweld' yr anwylyd yn olwg corfforol ar y Dwyfol. Mae pennill arbennig o'r GGS yn amlygu'n glir bwysigrwydd y berthynas bersonol hon o brofi neu weld y Dwyfol.

> Y brain a chwiliasant fy ysgerbwd, ac a fwytasant fy holl gnawd. Ond peidiwch â chyffwrdd â'r llygaid hyn; rwy'n gobeithio gweld fy Anwylyd. (GGS t. 1382)

**Sut mae'r meddwl yn gwerthfawrogi'r Dwyfol**

Defnyddir nifer o dermau gwahanol hefyd i gyfeirio at y Dwyfol, megis y bendigedig [*Waheguru*], y Gwir Enw [*Satnam*] a'r Di-ffurf [N*irankar*]. Dro ar ôl tro, mae dysgeidiaeth y GGS yn cyfeirio at rodd gweledigaeth [*Nadar*] fel cyfle i fynd y tu hwnt i ymwybyddiaeth rhywun o fod yn fydol neu'n hunan-gyfeiriedig [*manmukh*]

i fod mewn cytgord â’r Dwyfol [*gurmukh*]. Mae bod mewn cytgord â’r Dwyfol yn gysyniad o feddwl wedi’i ddeffro. Mewn Sikhiaeth, mae rhywun sydd mewn cytgord â’r Dwyfol wedi ‘gweld’ y Dwyfol ddi-ffurf ac wedi ‘clywed’ yr alaw ddi-sŵn [*anahad sabad*], sy’n awgrymu dwysáu’r synhwyrau, a deffro’r meddwl [*mun* neu *buddhi*] . Yn bwysig, mewn athroniaeth Indiaidd yn gyffredinol, mae arwyddocâd llawer ehangach i’r term mun na’r ‘meddwl’ yn unig: nid oes gan y gair gyfieithiad boddhaol, a gellir ei gysylltu hefyd â’r galon, sy’n gysylltiedig ymhellach â theimladau ac emosiynau. Mewn trafodaethau geiriol o’r GGS, defnyddir y term *buddhi* hefyd yn aml ar gyfer y meddwl a’r gydwybod. Mae ymarfer Sikhiaid yn llawn o adrodd y GGS ar gân neu ganu mawl i Dduw [*kirtan*], fel ffordd ymarferol o dawelu’r meddwl. Gellir ystyried canu mawl i Dduw yn grefft o gyfathrebu ysbrydol â’r Dwyfol. Mae Guru Arjan Dev yn cysylltu’n glir ‘gweld y Dwyfol’ [*darśan*] â deffroad y meddwl:

> Mae fy meddwl [*mun] yn hiraethu am Weledigaeth Fendigaid darśan* y Guru. (GGS, t. 96)
>
> Mae fy meddwl [*mun*] yn dyheu am weld y Dwyfol [*darśan*], Nanak, mae syched ar fy meddwl. (GGS, t. 133)

**Swyddogaeth gweld y Dwyfol**

Felly, mae ‘gweld’ yn ôl y GGS yn sylweddoliad, yn brofiad cyfriniol o dderbyn natur y Dwyfol o fewn pob bod dynol. Mae Nikky-Guninder Kaur Singh yn cyfateb yn huawdl ‘gweld’ fel sylweddoliad o’r Dwyfol sydd ar ddod. Mae hi’n pwysleisio:

> mae *dekhai* neu olwg, yn fetaffisegol, yn union yr un fath â chategori *sujhai* – sylweddoli neu ddarganfod; yn llythrennol, cael mewnwelediad i ffenomenau fel y maent yn eu hanfod. Nid yw synhwyrau a rhesymoledd yn cael eu gosod yn erbyn ei gilydd; i’r gwrthwyneb, maent yn cynnwys ei gilydd (1993, t. 21).

**Llwybr ymarfer**

Mae’r pwyslais yma ar ‘gariad’, perthynas bersonol â’r Dwyfol trosgynnol trwy ymroddiad [*bhakti*] i Ddwyfol Eithaf di-ryw, di-ffurf, y mae’n rhaid ei brofi a’i ddirnad er mwyn deffro’r gydwybod i’r cyflwr delfrydol sydd mewn cytgord â’r Dwyfol. Mae gweld y Dwyfol, a ddychmygwyd fel anrheg i ddynoliaeth, yn gyfle i brofi undod cyfriniol â’r Dwyfol [*sahaj*] trwy ystyried a myfyrio ar yr Enw [*Nam Simran*]. Mae dadansoddiad o ddysgeidiaeth y GGS yn dangos bod undod cyfriniol â’r Dwyfol yn deillio o brofiad cyfriniol *darśan* : sy’n awgrymu bod undod cyfriniol a gweld y Dwyfol yn cyd-ffinio. Gweld y dwyfol felly yw gwireddu’r Gwirionedd, ac mae diffyg hyn yn dod â thristwch a dioddefaint.

Daeth yr ymgais i ddod â dioddefaint o’r fath i ben yn bryder canolog i Guru Nanak. Mae’r cysyniad o ‘fod mewn hwyl dda’ neu ‘orchfygu pryder’ [*chardi kala*] ymhlith Sikhiaid yn gyfystyr â rheoli’r meddwl. Yn aml iawn mae arweinwyr ysbrydol Sikhaidd yn rhagnodi *clywed* caneuon i ganmol Duw fel y llwybr tuag at hwyliau da neu oresgyn pryder, ac felly goresgyn salwch meddwl ac iselder. Yn ymarferol, mae’r dysgeidiaethau hyn yn cael eu cwmpasu yn yr arfer o fyfyrio ar yr Enw [*Nam Japna*] yn ogystal ag ar ffurf yoga *kundalini*. Mae arfer yr olaf wedi dod yn amlwg ymhlith Sikhiaid drwy ymdrechion Harbhajan Singh Khalsa. Drwy ymdrechion Harbhajan Singh Khalsa o’r 1970au ymlaen yn America y mae’r gymuned Sikhaidd fyd-eang [*panth*] wedi gweld mewnlifiad o Sikhiaid nad ydynt yn Bwnjabi. Mae yna nifer o

*gurdwaras* ar draws y byd yn cynnig dosbarthiadau ar yoga *kundalini*. I lawer o Sikhiaid, yr agwedd ymarferol ar ddysgeidiaeth ynghylch 'gweld' y Dwyfol yw trwy'r profiad cyfriniol o Uno â'r Dwyfol mewnfodol, profiad sy'n deillio o arferion fel yoga kundalini lle mai *uchafbwynt* 'gweld y gwirionedd' yw agor degfed porth ymwybyddiaeth [*dasam duar*]. Mae'r nwmenaidd a'r anhraetholdeb, i ddefnyddio termau Rudolf Otto (gw. ei *The Idea of the Holy* , 1917) o 'weld' y Dwyfol yn mynd y tu hwnt i'r gydwybod i'w phwynt uchaf, sef y degfed porth, y chakra uchaf yn ôl terminoleg yogig Nath, a ddefnyddir hefyd gan Guru Nanak yn ei ddysgeidiaethau.

**Trosiad y priodfab**

Gan ddychwelyd at drosiad y priodfab a grybwyllwyd yn gynharach, mae'r teimlad o fod yn syfrdan [*visamad*] ym mhresenoldeb y Dwyfol yn sicr yn ganlyniad i gyrraedd gweledigaeth o'r Dwyfol trwy brofiad cyfriniol. 'Gweld' felly yw amsugno'r meddwl, trwy'r arferiad myfyrgar o ailadrodd enw'r Dwyfol, i undod â'r Dwyfol, mewn perthynas anwahanadwy sy'n seiliedig ar y cariad mwyaf y mae'r briodferch (sy'n symbol o ddynoliaeth) yn ei deimlo wrth 'weld' ei Phriodfab Annwyl (alegori am y Dwyfol). Mae trosiad diwrnod priodas, lle mae'r briodferch yn dyheu am fod yn unedig gyda'i Phriod Annwyl yn cael ei ddefnyddio ar sawl achlysur yn y GGS i ddarlunio'r berthynas rhwng dynoliaeth a'r Dwyfol. Mae'r GGS yn tynnu sylw at deimladau ecstatig y briodferch pan fydd yn unedig â'i phriodfab; mae hefyd yn dangos ei gofid a'i thristwch pan mae'n cael ei gwahanu oddi wrtho. Mae hwn yn gysyniad sy'n dod o hyd i fynegiant yn athrawiaethau'r traddodiad Sant Gogleddol a chyfeirir ato fel gwahaniad [*viraha* neu *birha*]. Felly, mae myfyrdod ar Enw'r Anwylyd yn gysur i hiraeth y briodferch i gael 'gweld' ei phriodfab.

**Pwysigrwydd genedigaeth ddynol**

Wrth archwilio esboniadaeth y GGS, mae rhywun yn dod o hyd i gysylltiad anwahanadwy rhwng Ewyllys y Dwyfol [*Hukam*] a rhodd gweledigaeth. Yn unol ag Ewyllys y Dwyfol, mae'r hunan tragwyddol [*atman* neu *jiva*] yn cael ei eni i'r deyrnas ddynol, ac felly'n cael y cyfle euraidd i wireddu'r Dwyfol, i gael gweledigaeth o'r Realiti Eithaf. Yn wir, nodweddir un sydd mewn cytgord â'r Dwyfol gan ymostyngiad llwyr i Ewyllys y Dwyfol (GGS, t. 636). Yr enedigaeth ddynol yw'r unig beth, a thrwy hon y mae ymdrech unigol o'r pwys mwyaf tuag at ryddhau'r atman [m*ukt*] o gylchred yr ailymgnawdoliad [*samsara*]. Gan mai'r ego [*haumai*] yw'r rhwystr mewn gwireddu Dwyfol, rhaid ei oresgyn drwy berthynas bersonol a chariadus â'r Dwyfol mewn defosiwn [*bhakti*]. Mae myfyrdod ar Enw'r Dwyfol, sydd bellach yn sylfaen graidd i Sikhiaeth, yn biler nodedig o feddwl Sikhaidd. Felly mae llwybr [*marga*] defosiwn yn cael ei osod ar bedestal mewn athroniaeth Sikhaidd. Fodd bynnag, mae'r rhyddhad terfynol o'r cylch marwolaeth ac ailenedigaeth barhaus [*samsara*] yn gwbl ddibynnol ar y rhodd o weledigaeth, ni all ymdrechion unigol yn unig sicrhau rhyddhad. Mae'r person bydol neu hunan-gyfeiriedig yn parhau i fod wedi'i ddieithrio oddi wrth y Dwyfol ac yn dewis peidio ag ymateb i'r wobr o weledigaeth ac felly'n parhau i fod yn rhwym i *samsara*. Y drafferth ddynol yw caethiwo'r hunan neu'r enaid tragwyddol [*atman*] mewn *samsara*. Mae trawsfudo'r hunan tragwyddol fel hyn yn ganlyniad i ymlyniad wrth bleserau bydol, fel y nodweddir gan oruchafiaeth yr ego. Fel y dywedwyd yn gynharach, genedigaeth i'r byd dynol, yn ôl y GGS, yw'r cyfle euraidd y gellir gwireddu'r

Dwyfol trwyddo, sy’n gyfystyr â rhodd ‘gweledigaeth’. Ystyrir felly mai genedigaeth ddynol yw’r uchaf o’r holl enedigaethau mewn Sikhiaeth.

**Goresgyn y drygioni**

Mae’r llwybr i’r Dwyfol yn ymwneud yn bennaf â myfyrdod ar Enw Duw. Mae’r sawl sydd mewn cytgord â’r Dwyfol yn myfyrio ar yr Enw [*Nam*] i orchfygu pum pechod chwant [*kam*], dicter [*krodh*], trachwant [*lobh*], ymlyniad [*moh*] a balchder [a*hankar*]. Mae myfyrio ar yr Enw yn galluogi rhywun i ddod i gytgord â’r Dwyfol er mwyn ymwahanu oddi wrth afael *samsarig* ymlyniadau bydol. Gellir dod o hyd i’r llwybr tuag at ryddhad trwy wrando [*sabad*] hefyd ar eiriau’r GGS. Ymgorfforwyd y cysyniad o ‘wrando’ i ddiwinyddiaeth Guru Nanak o’r traddodiad Sant Gogleddol, i ddisgrifio’r ‘sain’ gyfriniol a brofir ar uchafbwynt y dechneg yoga *hatha*.

**Casgliad**

I gloi, mae dysgeidiaeth Sikhaidd yn cydnabod bod ‘gweld’ y Dwyfol ddi-ffurf, annealladwy yn golygu derbyn hyd yr eithaf yr Ewyllys Ddwyfol [*Hukam*]. Anghenraid ar gyfer gwybodaeth o’r fath yw rhoi’r gorau i’r ego. Gan fod etymoleg Sansgrit y gair gweld neu weledigaeth yn defnyddio’r gwraidd *dṛś*, mae’n amlwg yn gysylltiedig â *darśan* wrth ddynodi ‘golwg’ a ‘gweld’ yn yr ystyr ei fod yn cael ei drafod yn fanwl mewn athroniaeth grefyddol Indiaidd. Daw’r camau ymarferol tuag at undod â’r Dwyfol, ac felly gweld y Dwyfol, drwy arferion megis cadw cwmni’r gynulleidfa [s*angat*], canu a chlywed mawl i Dduw, a myfyrdod unigol yn ogystal â thorfol ar yr Enw ac yoga corfforol. Mae gan fudiadau sectyddol Sikhaidd gyda Santiaid, Babas a Gurus byw eu hymarferion unigryw eu hunain sy’n gysylltiedig â’r cysyniad o *darśan*, a’r amlycaf ohonynt yw ceisio bendithion gan yr arweinydd ysbrydol mawr ei barch.

## Geirfa

*atman*: yr hunan tragwyddol.

*Babas*: arweinwyr ysbrydol parchedig.

*bhakti*: cariad, defosiwn.

*buddhi*: y meddwl, ymwybyddiaeth.

*chardi kala*: hwyliau da / goresgyn pryder.

*darśan*: ‘gweld’ neu ‘weledigaeth’ o’r Dwyfol.

*gurdwara*: man addoli Sikhaidd.

*gurmukh*: un sydd mewn cytgord â’r dwyfol.

*Guru*: athro ysbrydol – yn enwedig y 10 Guru Sikhaidd, a olynwyd gan y GGS fel y guru terfynol a ‘thragwyddol’.

*GGS*: gweler Guru Granth Sahib.

Guru Granth Sahib: y prif destun Sikhaidd, wedi’i dalfyrru i GGS.

*yoga hatha*: ioga fel arfer yn cynnwys ystumiau corfforol a thechnegau anadlu.

*huamai*: ego.

*Hukam*: ewyllys y Dwyfol.

*kirtan*: canu mawl y Dwyfol.

*kundalini yoga*: arfer crefyddol yn cynnwys *chakras* i ryddhau egni ar waelod yr asgwrn cefn.

*manmukh*: person bydol neu hunan-gyfeiriedig.

*mun*: y meddwl, ymwybyddiaeth.

*Nadar*: rhoi neu gyflwyno gweledigaeth, cyfle i fynd y tu hwnt i ymwybyddiaeth fydol.

*Nam*: Enw'r Dwyfol.

*Nam Japna*: myfyrdod ar yr Enw.

*Nam Simran*: ymarfer myfyriol o ailadrodd enw'r Dwyfol.

*Nath*: is-draddodiad Saivic o yoga.

*Y Traddodiad Sant Gogleddol*: Traddodiad Hathayogig yn tynnu ar Swffiaeth Vaishnava bhakth Sufism ac Yoga Nath.

*sahaj*: undeb cyfriniol.

*samsara*: cylch parhaus marwolaeth ac ailenedigaeth.

*Sants*: yn llythrennol unigolion a dawelwyd, a gymodwyd â nhw, seintiau.

*Sikhiaeth*: dysgeidiaeth y Gurus Sikhaidd.

*Waheguru*: y Dwyfol, yr Anwylyd, y Dwyfol Rhyfeddol.

## Cysylltiadau rhyngrwyd

https://www.srigranth.org (Fersiwn ar-lein chwiliadwy yn Saesneg a Gurmukhi o'r Guru Granth Sahib, a ddatblygwyd gan academyddion ym Mhrifysgol Pwnjabeg, Patiala, India.)

https://www.sikhnet.com (gwefan Sikhaidd sy'n ymdrin â llawer o bynciau o safbwyntiau athronyddol, hanesyddol a chyfoes.)

https:// www.sikhs.org (Gwefan sy'n ymdrin ag athroniaeth a chredoau Sikhaidd.)

## Pwyntiau trafod

1.Sut mae dysgeidiaeth y Sikhiaid am *darśan* yn gwneud Duw yn bersonol?

2. Pa rôl sydd gan *Nam Simran* yn hyn?

## Cyfeiriadau a darllen pellach


Beckerlegge, Gwilym (2001). Delweddau cysegredig Hindŵaidd i'r farchnad dorfol. Yn *From sacred text to internet* (pp. 57-116). Ed. G. Beckerlegge, Milton Keynes: Open University Press.

Cassio, Francesco (2012). 'The Music of the Sikh Gurus': Tradition in a Western context. *Sikh formations: Religion, culture, theory, 7*(3), 313–337.

Cole, William Owen, and Piara Singh Sambhi (1995). *The Sikhs: Their religious beliefs and practices*. Sussex: Sussex Academic Press.

Eck, Diana (1998). *Darsan: Seeing the divine image in India*. New York: Columbia University Press.

Kaur Singh, Nikky-Guninder (1993). *The feminine principle in the Sikh vision of the transcendent*. Cambridge: Cambridge University Press.

Otto, Rudolf (1917). *The idea of the holy*. Oxford: Oxford University Press.

Takhar, Opinderjit Kaur (2005). *Sikh identity: An exploration of groups among Sikhs*. Farnham: Ashgate.

Takhar, Opinderjit Kaur (2014). Sikh Sects. In *The Oxford handbook of Sikh studies* (pp. 350–359). Eds. P. Singh and L. Fenech, Oxford: Oxford University Press.

Takhar, Opinderjit Kaur and Stephen Jacobs (2011). Confusing the issue: Field Visits as a strategy for deconstructing religious boundaries. *Discourse: Learning and teaching in philosophical and religious studies*, *10*(2), 31–44. *religious studies*, *10*(2), 31–44.


*Mae Opinderjit Kaur Takhar MBE yn ymchwilydd a gydnabyddir yn rhyngwladol ac yn Athro Cyswllt Astudiaethau Sikhaidd ac yn Gyfarwyddwr y Ganolfan Astudiaethau Sikhaidd a Phanjabi ym Mhrifysgol Wolverhampton. Mae hi wedi cyhoeddi nifer o lyfrau a phapurau ar y Sikhiaid a'u ffydd trwy bynciau ffocws fel y rhywiau a chast. Defnyddir ei chyhoeddiad ar hunaniaeth Sikhaidd,* An exploration of Groups among Sikhs (*Ashgate,* 2005)*, fel testun allweddol mewn llawer o brifysgolion ledled y byd. Mae ei llyfr diweddaraf, gyda Doris Jakobsh, o'r enw* Global Sikhs (2023)*, yn cynnwys cyfraniadau gan ysgolheigion Astudiaethau Sikhaidd o bob rhan o'r byd. Opinderjit yw Llywydd Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol y DU (*trs.ac.uk).